

ECO'R WYDDFA

RHIF 91

EBRILL 1984

20c

Y CWPAN I LANRUG



Mae gan blant Ysgol Gynradd Llanrug berffaith hawl i weiddimewn llawenydd oherwydd yn dilyn eu llwyddiant yn Eisteddfod Sir yr Urdd yn ddiweddar, hwy yw deiliaid Cwpan Pantyfedwen — a hynny am y tro cyntaf. Rhoddir y cwpan i'r adran Ysgol sydd wedi ennill y mwyaf o farciau yn yr Eisteddfod. Pob llwyddiant i'r ysgol ar y NAW cystadleuaeth yn y Genedlaethol yn yr Wyddgrug fis Mai!

Llongyfarchiadau i Lanrug ac i bawb o'r fro a fu'n cystadlu yn Eisteddfod y Sir, — mae manylion yng nghlofnau rhai o'r pentrefi ac yn Sibrydion o'r Ysgolion (tud 3).

SEGURDOD — DROS DRO

Mae tawelwch ym mhentref Dinorwig unwaith eto ar ôl tua blwyddyn o brysurdeb a bwrlwm gwaith — sŵn cyfarwydd a atgoffai rhai o'r trigolion am ddyddiau'r chwarael yn ei bri. Gwaith y "chwarelwyr" newydd oedd dymchwel y tomennydd a'u lefelu, llenwi'r hen dyllau a thirlunio'r holl ardal. Buont wrthi ddydd a nos a chrewyd ganddynt olygfeydd newydd a fai'n synnu rhai o "blant" Dinorwig-ar-wasgar, sydd heb fod yn ôl yn yr hen fro ers blwyddyn.

Ond bellach, a'r gwaith wedi hanner ei gwblhau daeth pethau i ben oherwydd fod Beechwood, y cwmni sy'n gyfrifol, yn fethdalwr. Trosglwyddwyd y cwmni i ddwylo'r derbynwyr swyddogol yn ystod y mis a aeth heibio a gorchmynwyd i'r

gweithwyr adael y safle.

Cyflogai Beechwood (Caersws) eu dynion eu hunain gan fwyaf ar y cynllun a gweithiai mwyafrif y dynion lleol ar y shift nos. Caed arwydd fod drwg yn y

(parhad ar dud. 5)



Mae'n edrych fel bod pethau wedi mynd i'r wal tua Dinorwig! Segur yw'r gêr a'r tarw dur erbyn hyn ond yn y cefndir gwelir peth o ôl y dynion a roddodd llwyddyn o lafur caled i lefelu a thirlunio rhai o'r tomennydd.

Rhaid disgwyl rhai misoedd cyn y daw cwmni arall i'r adwy i gwblhau'r gwaith.

CYNHELIR CYFARFOD CYFFREDINOL ECO'R WYDDFA

Nos Iau, Ebrill 5 am 7.30 yn
Festri Capel BRYNREFAIL
Croeso cynnes i bawb

DIPLOMA I ACTORES

Llongyfarchiadau i Mari Hughes, merch y Dr a Mrs D.R. Hughes, Plas Pantafon, Llanrug ar ei llwyddiant ym myd y ddrama. Bu'n dilyn cwrs tair blynedd yn y Royal Academy of Dramatic Art (RADA) ac eleni enillodd ddiploma gydag anrhydedd — un o ddim ond pedwar i wneud hynny. Yn ogystal, enillodd ddwy wobwr arall — Gwobr Kendal — am y perfformiadau gorau gydol ei chwrs, a Gwobr Goffa Cedric Hardwick am y perfformiad gorau mewn unrhyw ddrama o'r ugeinfed ganrif. Enillodd y wobwr ddiwethaf hon am ei rhan yn y ddrama "Top Girls" a hi oedd yn actio'r brif ran — Marlene.

Ar hyn o bryd mae'n gobeithio



cael ei cherdyn 'Equity' er mwyn medru cynnig am wahanol swyddi ym myd y cyfryngau.

ARDDANGOSFA O'I LUNIAU ADAR



Drwy gydol mis Mawrth roedd arddangosfa yn Llyfrgell Bae Colwyn o waith arlunydd o fro'r Eco. Ynddi dangoswyd tua cant o luniau adar wedi eu peintio gan Islwyn Williams o Benisarwaun.

Islwyn, ynghyd â'r naturiaethwr enwog, E.V. Breeze Jones sy'n gyfrifol am y gyfres liwgar o lyfrau adar (Adar yr Ardd, Adar yr Ucheldir ac yn y blaen) a gyhoeddir gan Wasg Dwyfor — cyfres sy'n rhan mor werthfawr o lyfrgell unrhyw Gymro sy'n ymddiddori mewn adar. Roedd y lluniau yn yr arddangosfa wedi eu cymryd o'r gyfres ac yn ymddangos yn eu maint gwreiddiol.

Mae bob llun o'i eiddo yn dangos yr aderyn yn ei gynefin a hynny mewn manylder. Gwnaeth oriau o waith ymchwil, drwy ddarllen a chrwydro'r fro i weld â'i lygaid ei hun, cyn dechrau arlunio, mewn ymgais i adnabod yr aderyn yn drwyadl. Mae â diddordeb nid yn unig yn y nodweddion allanol ond

hefyd mewn manylion fel arferion ei 'destun' — bwydo, nythu ac yn y blaen.

Wedi iddo gasglu'r holl ffeithiau ynghyd yna bydd gan Islwyn lun cyflawn o'r aderyn yn ei feddwl — cyn bod unrhyw beth ar bapur. Ymgais lwyddiannus iawn i greu stori yw y llun terfynol bob tro.

Yn ystod wythnos olaf yr arddangosfa roedd Islwyn yn bresennol i gyfarfod â disgyblion o Ysgolion Clwyd i drin a thrafod ei waith ac i arddangos ei grefft fel arlunydd mewn ffordd ymarferol.

Gresyn na fuasai'n bosib trefnu arddangosfa gyffelyb o'i waith yn y fro hon fel y buasai'n bosib i ninnau gael y cyfle i werthfawrogi ei lafur a'i ddawn.

ECO'R WYDDFA

RHIF 91
EBRILL 1984

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd
Cibyn, Caernarfon

Cyhoeddwyd gyda chymorth
Cymdeithas Gelfyddydau
Gogledd Cymru

SWYDDOGION A GOHEBWYR

GOLYGYDD NEWYDDION

CYFFREDINOL: Twrog Jones, 23
Glanffynnon, Llanrug (C'fon 4051)

GOLYGYDD ERTHYGLAU: Dafydd
Whiteside Tomas, Bron y Nant,
Pontrhythallt, Llanrug (C'fon 3515)

GOLYGYDD NEWYDDION: Tony
Elliot, Crud y Wawr, Bryneglwys,
Penisrwaun (Llanberis 872438)

TREFNYDD NEWYDDION

YSGOLION: Iwan Lloyd Williams,
Bryn Idris, Llanberis (870515)

DYDDIADUR Y MIS: Miss Jane
Morris, 'Rallt Isaf, 3 Pen y Bont,
Ffordd Capel Coch, Llanberis
(871561)

FFOTOGRAFFWYR: Ifan Parry,
Morwel, Ceunant, (Waunfawr 321)
Gwynndaf Jones, 60 Glanffynnon,
Llanrug (C'fon 4669). Gwyndaf
Hughes, 20 Glanffynnon, Llanrug
(Caernarfon 77163)

Islwyn L. Jones, Y Garn, Bryn
Moelyn, Llanrug (C'fon 5874)

TREFNYDD HYSBYSEBION: John
Roberts, Bedw Gwynion, Llanrug
(C'fon 5605)

TREFNYDD GWERTHIANT: Arwyn
Roberts, Hafle, Ffordd yr Orsaf,
Llanrug (C'fon 5510)

TREFNYDD ARIANNOL: Goronwy
Hughes, Eithinog, 14 Afon Rhos,
Llanrug (C'fon 4839)

TREFNYDD GWERTHIANT POST:
Mrs M. Evans, Lloc, Llanrug (C'fon
3227)

GOHEBWYR PENTREFI: Dyma'r bobl
i gysylltu â nhw yn eich ardaloedd:

BETHEL: Geraint Elis, Cilgeran
(Portdinorwic 670726).

BRYNREFAIL: D.G. Ellis, Gweledfa
(Llanberis 871223)

CEUNANT: Ifan Parry, Morwel,
(Waunfawr 321)

CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands,
Glarafon (Llanberis 872275)

DEINIOLLEN: W.O. Williams 6 Rhyd-
fadog, Deiniolen (Llanberis 871259)

DINORWIG: O.R. Williams, 2 Bro
Elidir (Llanberis 870671)

LLANBERIS:

NANT PERIS: T.J. Roberts, Llys Awel
LLANRUG: Mrs Eirlys Pierce,
Swyn-yr-Awel (C'fon 3776)

PENISARWAUN: Mrs Mary Davies, 9
Llys y Gwynt, (Llanberis 872329)

TAN-Y-COED: Miss Megan
Humphreys, 4 Tai Tan-y-coed
(Llanberis 870030)

WAUNFAWR: Mrs G. Jones, Rhandir
Mwyn (Waunfawr 626)

TREFNYDD PLYGU: Edward Elias, 21
Glanffynnon, Llanrug (C'fon 3719)

Y RHIFYN NESAF

Daw'r rhifyn nesaf
o'r wasg

MAI 3

Deunydd i law'r
golygyddion perthnasol

NOS FAWRTH

EBRILL 24

os gwelwch yn dda

LLYTHYRAU

NEWYDDION AM BLANT LLANRUG GYNT

Annwyl Olygydd,

Mae lle prysur iawn wedi
bod yn ein cartref ni — Eurwyn a
Grace Roberts, yn ddiweddar
(gynt o 1 Bryntirion Llanrug).

Fe ffarweliodd Eurwyn a Grace
â'u teulu â'u ffrindiau ym 1968 a
chychwyn am Awstralia gyda'u
teulu bach — John Keith, Alwyn
Gwyndaf, a'r unig ferch, Glenda.

Mae'r plant i gyd erbyn hyn
wedi tyfu a dyma dipyn o'u hanes
hwy.

Ar Chwefror 11 fe briododd y
mab hynaf, John Keith ag Elyse
Hillier, unig ferch Mr a Mrs Ron
Hillier, Sydney.

Mae Keith a'i wraig erbyn hyn
wedi hedfan i Gymru, yn ôl i'w
hen gynefin. Ar hyn o bryd mae'r
ddau ifanc yn aros gyda Nain a
Taid, — Mr a Mrs G.D. Williams,
44 Maes Barcer, Caernarfon.

Ar Chwefror 17, 1984 fe
briododd Glenda, â Warren
Bruce Turner. Ysgrifenyddes yw
Glenda ac mae Warren yn yr
Heddlu yn New South Wales.

Mae Glenda wedi bod yn
brysur iawn yn dysgu ei gŵr
siarad Cymraeg, ac mae yntau'n
awyddus iawn i ddysgu ein hiaith
ni.

Mae Warren a Glenda wedi
symud i ddy newydd yn y Blue
Mountains ger Sydney, maent
wedi galw eu cartref newydd yn
'Cartref Ni'.

Wythnos ar ôl i Glenda briodi
dyma Alwyn i'r tŷ a dweud
wrthym ei fod ef a Sylvia
Downing yn cyhoeddi eu
hymrywmiant ar 17 Mawrth,
1984.

Dymuna teuluoedd a
ffrindiau'r tri chwpwl ifanc pob
bendith a llwyddiant iddynt i'r
dyfodol.

Cymdeithas Gymraeg Sydney

Rwy'n anfon y rhan hwn o'm
llythyr ar gyfer y Gymdeithas
uchod.

Efallai fod gan rhai o
ddarllenwyr Eco'r Wyddfa
deuluoedd neu ffrindiau allan yn
Sydney a fuasai'n hoffi cwrdd â
Chymry eraill yma. Os hynny,
anfonwch y cyfeiriad a'r ffôn isod
iddynt. Mae croeso cynnes i
bawb o bob oedran yn ein
Cymdeithas.

Mae gennym lythyr misol yn
ein Cymdeithas, efallai y buasai
rhai o ddarllenwyr Eco'r
Wyddfa'n hoffi anfon rhyw air
bach atom o dro i dro.

Mae'n anodd iawn dod o hyd i
ddefnydd i ddifyrru'r aelodau
bob mis, mi fuaswn yn
ddiolchgar iawn pe bai rhai
ohonoch yn gallu anfon ambell i
syniad neu ddefnydd i ni ar gyfer
ein cyfarfod misol.

Os bydd rhywun o ddarllenwyr
Eco'r Wyddfa yn ymweld ag
Awstralia, bydd croeso cynnes
iddynt yn ein plith.

Yr eiddoch yn barchus,
Grace Roberts (Cof Dre)

Anfonwch eich llythyr i:

Mrs G. Roberts (Ysgrifenyddes)
Cymdeithas Gymraeg Sydney
c.o. 16 Wyalong St.
Panania. 2213
Sydney, N.S.W.
Awstralia

SYLWADAU AR DDYFODOL Y LLYN

Annwyl Syr,

Darllenais eich papur
rhagorol Chwefror 1984 fod
Awdurdod Dŵr Cymru eisiau
rhoi "rhwystrau" ar y defnydd o
Llyn Padarn. Pwynt da i drio
gwneud yn sicr nad oes damwain
trwy ganwio a hwylio, ond
dyna'r cwbl. Dim ond pysgota
yn Pen Llyn yn unig — arhoswch
gartref bysgotwyr yr oes yma a'r
nesaf. Ychydig yn ôl roedd
rhywun eisiau cau pont Pen
Llyn. Tybed nad hynny oedd y
dechrau? Cyn bo hir fe fydd
peiriannau 'talw ac arddangos'
am edrych ar y llyn. Beth fydd yn
digwydd os gwnawn dynnu llun
hefo camera?

Pwy ydyw'r Awdurdod yma?
A ydynt am gymryd lle 'mam
natur' a llenwi'r llyn hefo dŵr ar
ôl perfformio 'Dawns y Gwlaw'
fel 'Witch Doctors'!

Mae '1984' George Orwell yn
dod yn ffaith gywir — "Mae
Brawd Mawr yn eich gwyllo".

Yr eiddoch yn gywir,
Wilfred (Fachwen)

23 Woking Rd.

Poole

Dorset

CYSTADLAETHAU LLYFRAU GWYNEDD

Annwyl Olygydd,

Hoffwn atgoffa eich darllenwyr
am gystadlaethau llyfrau
Gwynedd 1983-84. Y dyddiad cau
yw 31 Mai, 1984 a dylid anfon
ceisiadau i'r Swyddfa Addysg,
Lôn Priestley, Caernarfon.

1. Pennod gyntaf nofel antur fer yn
ymwneud â'r gofod, addas i'r
oedran 9-11, ynghyd â braslun o
weddill y nofel.

Gwobr: £20 yr un hyd at 3 ac ystyrir
cynnig comisiwn i gwblhau'r
gwaith i'r ymgeiswyr llwyddiannus.

2. Siart neu gyfres o siartiau dysgu
ar gyfer unrhyw oedran neu faes
dysgu. Dylid drafftio'r gwaith yn y
maintioli a fwriedir gan lythrennu
yn y maint iawn. Cyfyngir i ddau liw.
Noder ffynhonnell unrhyw liwiau.

Gwobr: £100 i'w rannu yn ôl
teilyngdod.

3. Rhaglen fideo wreiddiol ar
unrhyw agwedd o astudiaethau'r
amgylchfyd yng Ngwynedd, ar
gyfer yr oedran 8-11 neu 11-13.

Gwobr: £50 i bob gwaith teilwng
hyd at £200.

4. Rhaglen gyfrifiadu'r ar ffurf gêm i
ddatblygu iaith. Dylai'r nodiadau
efo'r rhaglen ddangos ar gyfer pa
oedran y bwriedir y gêm. Dylid
paratoi'r rhaglen ar ffurf tâp neu
ddisg a dylid nodi ar gyfer pa
beiriant y'i lluniwyd.

Gwobr: £50 i'w rhannu.

5. Cyfieithu nofel i blant (manyllion
o'r Swyddfa yng Nghaernarfon).
Gwobr: £100 i'w rannu.

Yn gywir,
Gwilym Humphreys
Cyfarwyddwr Addysg
Swyddfa Addysg
Lôn Priestley
Caernarfon

CWRS DRAMA IEUENCTID CYMRU

Annwyl Olygydd,

Trwy gyfrwng eich misolyn
carwn dynnu sylw at Gwrs
Drama Ieuencid Cymru a
gynhelir yn Y Coleg Normal,
Bangor o'r 17eg-28ain o
Orffennaf eleni.

Prif amcan y cwrs fydd rhoi
cyfle i bobl ifanc ymarfer a
chael hyfforddiant yn holl
weithgareddau drama trwy
gyfrwng y Gymraeg, gan gadw
mewn cof nod sylfaenol
gweithgareddau dramatig, sef
datblygu personoliaeth,
hunanhyder ac
ymwybyddiaeth o'r hunan ac
eraill.

Gwahoddir arbenigwyr o
wahanol feysydd i ddarlithio a
chyfarwyddo yn ystod y cwrs a
bydd elfen helaeth o waith
creadigol drwy'r wythnos, fel y
gall yr aelodau ddefnyddio eu
dychymyg a'u dawn creadigol
ym mhob sesiwn.

Bydd cyfle i bob aelod o'r
cwrs ymdrin â rhai o'r elfennau
canlynol — meim, coluro,
llefaru, goleuo, ysgrifennu ac
ati a cheisir rhoi cyfle i aelodau
arbenigo mewn rhai
agweddau.

Mae'r cwrs yn addas i
ddisgyblion ysgol, athrawon
ifainc, aelodau o fudiadau
ieuencid neu unrhyw un
mewn gwirionedd rhwng
16-25 oed sy'n ymddiddori yn
y ddrama yng Nghymru.

Mae manylion pellach a
ffurflen gais i'w cael oddi wrth
yr isod.

Emyr Jones

Swyddfa Addysg Ranbarthol

Dolgellau

Ffôn Dolgellau 423191

GWYL DDrama IEUENCTID GWYNEDD, 1984

Annwyl Olygydd,

Dymunaf ddwyn i sylw eich
darllenwyr, bod yr Wyl Ddrama
eleni i'w chynnal yn Theatr Seilo,
Caernarfon, Mai 8, 9 a 10.

Y mae naw cwmni yn
perfformio dramâu byrion.

Os am fanylion pellach, dylid
cysylltu â Swyddfa'r Cyngor
Gwlad yng Nghaernarfon.

Yr eiddoch yn gywir,

J.R. Jones

Ysgrifennydd Rhanbarth,

Arfon a Dwyfor,

2 Cei Llechi,

Caernarfon.

OS AM WAU CARTREF
PRISIAU RHESYMOL
FFONIWC:
WAUNFAWR 523

SIBRYDION O'R YSGOLION

YSGOL BRYNREFAIL

Eisteddfod yr Urdd: Bu disgyblion yr ysgol yn brysur iawn yn cystadlu yn yr Eisteddfodau o dan 15. Dyma ganlyniadau'r Eisteddfod Cylch: Parti Adrodd - 1af; Parti Adrodd i gyfeiliant - 1af; Partion Cerdd Dant - 2il a 3ydd; Côr - 2il; Parti Merched - 2il; Unawd Cerdd Dant - Alison Edwards - 1af; Unawd Bechgyn - Graham Williams - 2il; Unawd Merched - 1af - Alison Edwards, 2il - Nia Thomas, 3ydd - Nia Roberts. Deuawd 1af: Helen a Sharon; 2. Alison a Jane; 3. Nia a Lyn. Unawd offeryn - 1af Graham Williams, Unawd Piano - 1af Meinir, 3ydd Manon. Adrodd - 1af Helen Mai Pritchard, 2. Jennifer Jones, 3. Sioned Roberts ac Eurgain Evans.

Aeth y partion buddugol a'r cyntaf a'r ail a'r unigolion ymlaen i gystadlu yn yr Eisteddfod Sir. Canlyniadau: Unawd Piano - Meinir 2il, Adrodd - Helen Mai, 3ydd. Unawd Cerdd Dant - Alison, 3ydd.

Buddugoliaeth i Graham ar y corn, ac i'r Parti Adrodd. Daeth y Parti Adrodd i gyfeiliant yn drydydd.

Llongyfarchiadau i bawb am wneud mor dda a phob hwyl i Graham a'r Parti Adrodd yn yr Wyddgrug yn mis Mai. Diolch hefyd i'r athrawon a fu'n hyfforddi'r partion a'r unigolion.

Arddangosfa: Aeth rhai o'r Chweched a'u hathro celf Mr Gwynfor Ellis i weld arddangosfa o ffotograffau yn Llyfrgell Caernarfon yn ddiweddar. Gwelsant arddangosfa wych gan Marian Delyth o luniau yn "croniclo Caernarfon".



Graham Williams o Lanrug fydd yn cystadlu ar yr unawd corn yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn yr Wyddgrug. Ac isod: y parti cydadrodd fydd yn mynd i'r prawf terfynol.



Theatr Gwynedd: Bu aelodau o'r pumed yn Theatr Gwynedd yn gweld ffilm 'Julius Caesar', sy'n un o llyfrau gosod yn Saesneg. Diolch i Mrs Beryl Jones am drefnu'r ymweliad.

Cwis Llyfrau: Ennill oedd hanes y tîm unwaith eto, y tro yma yn rownd Gwynedd ym Mhenygroes. Byddant yn cystadlu yn y rownd derfynol yn Aberystwyth ar Ebrill 5 ar drafod llyfrau a chyflwyniad llafar. Aelodau'r tîm yw - Meinir Williams, Agharad Preis, Amllyn Llwyd Evans, Sioned Williams, Ian Griffith, Tegid Roberts, Dylan Cole, Alun Wyn Evans a Sion Llwyd Ellis.

Ymwelwyr o Lydaw: Bu ymwelwyr o Gourin yn Llydaw yma ar gyfnwedd â disgyblion Ffrangeg Ysgol Brynrefail yn ystod mis Mawrth. Buont yn ein plith am bron i bythefnos a chafwyd llawer o hwyl yn ceisio siarad ieithoedd ein gilydd. Trefnwyd teithiau i Gastell Caernarfon, Melin Wlân Trefriw, Castell Conwy, Plas Menai, Amgueddfa Llanberis, Porthaethwy, Moelfre, Aliwminiwm Môn a Gwarchodfa Penrhos. Buont ar daith gerdded i fyny'r Wyddfa, a chawsant gyfle i farchogaeth ac i nofio. Cynhaliwyd disgo yng Ngwesty'r Victoria Llanberis, a oedd yn boblogaidd iawn. Diolch i Mr Parry am ddarparu'r ystafell.

Cawsant oll groeso cynnes yn yr ysgol, ac fe drefnwyd gwasanaeth o groeso iddynt gan Bethan (VI) gyda chantorion ac adroddwyr yr ysgol yn perfformio.

Diolch i bawb a fu'n rhan o'r cyfnwedd - y disgyblion a'r rheini, a c yn arbennig y prifathro Mr Thomas, a'r athrawes Ffrangeg, Mrs Edwards, am drefnu'r cwbl.

Pêl-rwyd: Twrnament o dan 13 Ysgolion Gwynedd yn Ysgol Bodedern, Mawrth 2. Tîm Brynrefail yn y rownd derfynol ar ôl chwarae'r gemau canlynol yn erbyn: Aberconwy 2-2; Y Gader, ennill 8-0; Botwnnog, ennill, 13-1, David Hughes, ennill, 7-1 (rownd gyn-derfynol), colli 6-5 i Ysgol Dyffryn Conwy yn y rownd derfynol.

Yn erbyn Ysgol Dyffryn Ogwen: Tîm dan 13, ennill 11-3, Tîm dan 17, colli 11-7.

Gêm Urdd Eryri - rowndiau cyn-derfynol - Tîm dan 13, Brynrefail 10, Friars 7.

Byddant yn chwarae'r gêm derfynol yn erbyn Ysgol Syr Hugh Owen neu Ysgol Penrallt.

Gêm Ieuencid Ryngwladol - Cymru a'r Alban - Fe aeth llond bws o ddisgyblion yr ysgol i Wrecsam Mawrth 13 i weld Malcolm Allen yn chwarae i Gymru yn erbyn yr Alban. Siomiant oedd y sgôr gyda Chymru'n colli 4-2, ond Malcolm yn amlwg oedd chwaraewr disgleiriaf Cymru. Chwaraeodd Malcolm ran amlwg yn gôl gyntaf Cymru ac fe

sgoriodd ail gôl arbennig o dda yn yr ail hanner. Cyn cychwyn am adref ar ôl y gêm fe ddaeth Malcolm ar y bws i gyfarfod pawb ac i ddiolch am eu cefnogaeth.

Pêl-droed: Ysgol David Hughes, Porthaethwy (oddi cartref) Dosbarth 1, colli 4-2; Dosbarth 2, cyfartal 1-1; Dan

15: colli 5-2, Hŷn: colli 7-0. Ysgol Dyffryn Ogwen (gartref): Dosbarth 1, Tîm 'A', colli 4-0; Dosbarth 1, Tîm 'B', ennill 4-0; Dosbarth 3, ennill 7-1; Dosbarth 4, ennill 10-0. Ysgol Dyffryn Nantlle (oddi cartref): Dan 13, colli 7-1, Dan 15, ennill 4-1, Bechgyn hŷn, ennill 2-1.

NEWYDDION BWS A THRËN

Dyma deitl newyddlen a gyhoeddir (Rhif 1 - Ebrill 1984) gan Adran Gynllunio Cyngor Sir Gwynedd ac a baratowyd gan eu tîm Cludiant Cyhoeddus.

Diben y newyddlen ydi sicrhau fod pobl Gwynedd yn gwybod beth sy'n digwydd i'w gwasanaethau bws a thrên. Gobeithir hefyd y gwnaiff annog mwy o bobl i ddefnyddio cludiant cyhoeddus a helpu i gadw'r gwasanaethau.

Cyhoeddir rhifynnau o hyn ymlaen ym misoedd Ionawr, Mehefin a Medi bob blwyddyn. O fis Mehefin eleni mi fydd yna ddau argraffiad - un i Aberconwy, Arfon ac Ynys Môn a'r llall i Ddwyfor a Meirionnydd.

Croesewir eich barn, eich awgrymiadau a'ch cwynion ynglŷn â chludiant cyhoeddus bob amser. Ysgrifennwch at J.O. Lazarus, Swyddog Cynllunio'r Sir, Cyngor Sir Gwynedd, Swyddfa'r Sir, Caernarfon LL55 1SH.

"MERI GO ROWND"

Dyma lyfr newydd ei gyhoeddi gan y Cyngor Llyfrau Cymraeg ar gyfer llyfrgelloedd yn unig.

Nofel antur a rhamant gan Juan Goytisolo ydyw wedi ei throsi i'r Gymraeg gan Ellis Wynne Williams.

Lleolir y nofel mewn pentref o'r enw Las Cadlas, ac yno dilynir hynt a helynt nifer o gymeriadau. Dyna Utah yr arlunydd sy'n ymddangos nad yw'n malio llawer am arian ac eiddo, y perchennog ffatri Don Julio Alvare, y sipsi Atila - sy'n canlyn Juana - a'i ffrind Pablo sy'n bwriadu dwyn oddi arno. Anfoner Matilda ei chwaer Celia, athrawes 26 oed ato yn y gobaith y bydd perthynas yn datblygu rhyngddynt. Mae Elisa, gwraig yr arlunydd, hefyd yn ceisio dal llygad y sipsi!

Meri-go-round go iawn sy'n cyflymu a chyflymu nes cyrraedd diwedd glo cyffrous.

Enillodd *Meri Go Rownd* y wobr gyntaf yng nghystadleuaeth nofel dramor yn Eisteddfod Genedlaethol Wrecsam 1977.

DRAENOG



DIPYN O GÊS!

Glywsoch chi mae'n debyg fod Ffiarles Nic, "Secretary for the State of Wales" wedi mentro i Lanberis i gael snac yn y Fic yn ddiweddar - a bod 'na rhyw hen brotestyrs digywilydd wedi ei gadw fo oddi wrth ei fins on tost am awr.

Yn ystod pnawn yr un diwrnod roedd rhywun wedi achosi penbleth ofnadwy i'r bobl sy'n poeni am gadw ein harwr yn saff drwy adael cês ar y stryd yn Lanber. Oedd bom ynddo tybed? Dyna oedd y cwestiwn pwysig.

Na, dim byd ond dillad drama rhyw "derorist" anghofus oedd wedi mynd i actio i'r Bala.

CLWB ERYRI

Cynhaliwyd cinio Gŵyl Ddewi Clwb Eryri yng Ngwesty Gwynedd nos Wener, Mawrth 2. Y gŵr gwadd oedd y Parch Meirion Lloyd Davies, Pwllheli a chaed ganddo anerchiad grymus a gafaelgar. Llywydd y gweithrediadau oedd John Roberts Williams, Llanrug a estynnodd hefyd y croeso arferol i wragedd yr aelodau i'r cinio. Enillwyd cystadleuaeth y limerig gan Iolo Huws Roberts, y Waunfawr a thalwyd y diolchiadau gan Brython Jones.

'Roedd yr adloniant wedi ei drefnu gan yr ysgrifennydd, Rol Williams. Anfonwyd cyfarchion bawb oedd yn y cinio at T.W. Thomas, Llanrug, aelod ffyddlon o'r Clwb sydd yn yr ysbyty.

E.W.Pritchard CENTRAL GARAGE Llanberis

Ffôn: 870202

TREFNWYR ANGLADDAU
CEIR AR GYFER PRIODASAU
GWASANAETH TACSI

LLANBERIS

DIOLCH: Dymuna Jenny (gynt o Bethesda St) a'r plant ddiolch o galon i'w ffrindiau yn ardal Llanberis am bob arwydd o gydymdeimlad dderbyniodd yn ei phrofedigaeth o golli ei gŵr, Bert. Diolch am y llu cardiau a llythyrau a rhoddion at Ysbyty Madoc. Mae'n ddrwg gennym fod y llythyrau'n rhy niferus i'w hateb.

Dymuna Mrs Gwyneth Jones, 20 Maes Padarn, priod y diweddar Emlyn Jones ddiolch i'w chyfeillionei theulu a'r cymdogion am eu cydymdeimlad â hi yn ei phrofedigaeth o golli ei brawd - William, a fu'n byw gyda hi am beth amser o bryd i bryd, ac roedd wedi gwneud ffrindiau lu tra yma yn Llanberis.

Dymuna Lynda ac Emlyn, 15 Stryd yr Wyddfa ddiolch i'r teulu oll am bob arwydd o gydymdeimlad a gair o gysur a dderbyniwyd ganddynt. Diolch hefyd am y llu blodau a'r cardiau.

DYWEDDÏO: Debra ac Arwel: Llongyfarchiadau i Debra, merch Mr a Mrs Ifon Ellis, 7 Teras Efrog ar ei dyweddïad ag Arwel, mab Mr a Mrs Ieuan Roberts, Tŷ Capel, Porthmadog.

Eleri ac Eilir: Llongyfarchiadau i Eleri, merch hynaf Mr a Mrs John Williams, 6 Rallt Goch ac Eilir, mab ieuengaf Mr a Mrs E. Parry, 20 Dôl Elidir, Llanberis.

PERSONOL: Deëllir fod Arwel Wyn, mab Mr a Mrs Roberts, 9 Stryd Llainwen Isaf wedi dechrau ar ei waith gyda'r Brigad Ambiwylans ym Mhwlheli. Cymerodd ddiddordeb mawr yn y gwaith da yma ers blynnyddoedd, a bu o gymorth mawr i'r bechgyn bach ifanc sydd yn dilyn y dosbarthiadau Ambiwylans yn yr ardal. Dymunir pob lwc iddo yn ei waith newydd.

CYDYMDEIMLAD: Estynnir cydymdeimlad â Mr Robert Carveth a Mrs Nellie Carveth, Henryd ym marwolaeth brawd Robert Carveth yn Swydd Efrog.

Cydymdeimlir â Gwyneth a Selwyn, mab a merch y diweddar Evan Jones o Gaernarfon y cyfeiriwyd ato yn rhifyn mis Chwefror (roedd Evan yn frawd i Ann Jones, Teras Minafon).

Ym marwolaeth Derlwyn Rees Jones yn yr ysbyty yn Llandudno colodd Gwyneth a Mary Alltwn, dwy ferch y diweddar Caradog Jones, Stryd y Ffynnon gefnder, ac estynnir iddynt y cydymdeimlad llwyr.

Er bod plant yr ardal wedi iddynt dyfu i fynu yn gadael eu cartrefi a dilyn eu gorchwylion ymhell ac agos, mae ein diddordeb fel ardalwyr yn dal gyda hwy, a phan y cyfarwn â phrofedigaeth, mae ein teimladau ninnau yn yr ardal gyda hwy. Cyfeiriwn at un o ferched y diweddar Mr a Mrs Owen Owens, Bethesda Street, Jennie, y ferch ifanc a fu'n cartrefu ym Mhorthmadog ers blynnyddoedd bellach, yn sydyn iawn, iawn bu farw ei phriod rhyw wythnos yn ôl. Estynnwn ein cydymdeimlad llwyr â hi a'r plant, ei chwaer Lena, a'r brawd Emrys.

Cydymdeimlir â'r unig ddau gefndryd oedd gan y diweddar Barch Eric Owen, Pentrecastell gynt a fu farw ym Miwmares - ei gyfneither yw Mrs Violet Fosse Jones sydd yn byw yng Nghonwy ers blynnyddoedd bellach, a Mr Ernest Fosse sydd yn byw yn y Rhyl.

YN YR YSBYTY: Eto y mis hwn mae amryw o'r trigolion yn cwyno, rhai yn eu cartrefi, eraill yn yr ysbyty. Dymunir iddynt oll adferiad buan ac i'r rhai sydd yn yr ysbyty o hyd -

dychweliad gartre yn fuan.

Yn Ysbyty Môn ac Arfon y bu Bertie Parry, Stryd Newton a deallwn ei fod yn gwella yn araf wedi cyrraedd gartref.

Dychwelyd gartref a wnaeth Mrs Alice Lloyd Thomas, Tŷ'r Rheilffordd ar ôl ychydig amser yn Ysbyty Gobowen.

Cafodd David Parry, Noddfa ddamwain i'w law yn y gwaith, a gorfu iddo gael triniaeth lawfeddygol. Da ei weld gartref ac yn gwella'n dda iawn.

Ddechrau'r wythnos aeth Mrs Thomas Evans, Caledfryn i Ysbyty Gallt y Sil. Hefyd, yno y mae Mrs Sally Jones, 3 Field Terrace.

Yn Ysbyty Eryri, Caernarfon y mae Sister Annie May Jones, Ardwyn, Lôn Capel Coch.

Dymunir iddynt oll wellhad llwyr a dychweliad gartref buan.

Y BROWNIES: Bu'r Brownies a'r Guides yn weithgar iawn am rai nosweithiau yn casglu un peth ac arall o dŷ i dŷ er trefnu arwerthiant i godi arian at eu treuliau.

Un bore Sadwrn cafwyd 'jumbi sêl' a gwnaed £122 o elw. Da iawn blantos - yr ydych yn haeddu eich canmol am ymdrechu mor galed.

PEN-BLWYDD: Llongyfarchiadau calonnog iawn i Miss Nel Davies, gynt o Stryd Siarlot ar gyrraedd ei 90 mlwydd oed ar Fawrth 14. Un o blant yr ardal yw Miss Davies, wedi gwasanaethu'r cylch yn gydwybodol iawn tra gallai. Roedd yn ferch i'r diweddar Griffith Davies a fu'n organydd am flynyddoedd lawer yng Nghapel Gorphwysfa. Roedd hithau yn llawn cerddoriaeth, ac yn aelod bywiog iawn yn y corau merched a fu mor llwyddiannus yn eu tro. Cymeriad caredig iawn ydoedd, ac i blant y stryd a'r Ysgol Sul 'Anti Nel' ydoedd, yn fawr ei pharch gan yr ifanc a'r hen. Gobeithir y caiff llawer blwyddyn ddedwydd eto - ia hyd yn oed gyrraedd eich cant oed.

RHEDWYR IFANC: Dal i fod yn llwyddiannus y mae Paul a Linda Prydderch. Yng Nghei Connah, lle y trefnwyd Pencampwriaeth Gogledd Cymru, enillodd Paul y ras redeg dan 13 oed.

Yn y ras i enethod dan 11 oed daeth ei chwaer Linda yn ail.

Da iawn blant, peidiwch rhoi gorau iddi - ond dal ati mor ddygn ag erioed.

SEFYDLIAD Y MERCHED: Cynhaliwyd cyfarfod mis Chwefror yng Ngwesty Gwynedd lle bu'r aelodau yn dathlu Gŵyl Ddewi.

Llywyddwyd y cyfarfod gan Mrs Betty Humphreys, a rhoddodd groeso'n ôl i lawer o aelodau a oedd wedi bod yn wael yn ddiweddar.

Ein gwraig wadd am y noson oedd Miss Mat Pritchard, Caernarfon a diolchwyd iddi am sgwrs hynod o ddiddorol gan Mrs Jan Davies a Mrs Katie Williams.

Cynhelir y cyfarfod nesaf ar Fawrth 29 yn y Ganolfan.

PRIODAS: Ar Chwefror 4 priodwyd Pauline, merch Mr a Mrs Evans, Dôl Elidir â Keith, mab Mrs A.J. Roberts a'r diweddar William John Roberts, Bod Wenallt.

Cynhaliwyd y wledd briodasol yng Ngwesty Padarn Lake, a daeth tua 40 o gyfeillion ynghyd i ddymuno'n dda iddynt.

Dymuna Keith a Pauline ddiolch yn fawr i bawb am eu caredigrwydd, eu dymuniadau da a'r anrhegion gwerthfawr a dderbyniwyd ganddynt yn cynnwys swm o arian. Byddant yn cartrefu yn Rhif 22 Dôl Elidir, Llanberis.

Eleri ac Alwyn: Yng Nghapel Bethel gyda'r Parch Ronald W. Hughes yn

gwasanaethu a Mrs Beli Owen wrth yr organ, priodwyd Eleri Wyn, merch Mr a Mrs Merfyn Hughes, Twll Clawdd â William Alwyn, mab Mr N.J. a Mrs E. Rowlands, Stryd Turner. Trefnwyd y wledd briodasol yng Ngwesty Plas Tan Dinas lle daeth tua hanner cant o gyfeillion a theulu i ddymuno'n dda iddynt.

Byddant yn cartrefu yn Ceunant, Llanrug.

PRIODAS YN CAPE TOWN, DE AFFRICA:

Priodwyd Trevor Evans, gynt o Dôl Elidir â Sue Ann, merch o Gape Town. Cofiw'n Trevor adael yr ardal rai blynnyddoedd yn ôl i aros gyda'i fodryb, chwaer i'w fam, yn y dref honno.

Dymuniadau da i'r pâr ifanc, a hwyrach y cawn weld y ddau yn dychwelyd am wyliau i'r hen ardal.

LLONGYFARCHIADAU: Estynnir llongyfarchiadau yr ardalwyr i'r Parch Huw John Hughes, ar ei benodiad yn ddarlithydd yn y Coleg Normal, Bangor. Mae wedi gadael yr ysgol ym Methesda, lle 'roedd yn brifathro, i ymuno â'r Brifysgol yn Aberystwyth, am dymor blwyddyn.

CLWB YR HENOED: Eto eleni bu aelodau o Glwb yr Henoed yn dathlu Gŵyl y Nawdd Sant. Mwynhawyd cinio ardderchog gan 140 o'r pensïynwyr yng Ngwesty'r Fictoria ddydd lau, Mawrth 1. Roedd y clwb yn dathlu nid yn unig Wyl y Nawddsant, ond hefyd pen-blwydd y clwb yn sefydliad llewyrchus ers 34 mlynedd. Dyma'r flwyddyn gyntaf i'r clwb ddathlu yr agoriad cyntaf ar ddydd lau a hwnnw ar Fawrth y cyntaf.

Croesawyd y pensïynwyr i'r cinio gan lywydd y pwyllgor, Mrs M. Bryn Hughes. Diolchodd i'r pensïynwyr am eu ffyddlondeb i'r clwb, i'r pwyllgor am eu diddordeb a'u cyfraniadau cyson ar hyd y flwyddyn

i godi arian, i'r cyfeillion sydd yn rhoddi eu hamser yn wythnosol i gludo'r prydau parod (meals on wheels) o amgylch yr ardal; diolchodd i'r cyfeillion hynny sydd bob amser yn barod i gludo'r pensïynwyr yn ôl a blaen i'r cinio. Diolchodd hefyd i oruchwylwyr Gwesty Fictoria a'r staff sydd mor groesawus a charedig wrth yr henoed bob blwyddyn.

Roedd un o'r pensïynwyr, Mrs Hanna Squires, yn dathlu ei phen-blwydd, ac ymunodd pawb i ddymuno'n dda iddi, a chyflwynwyd rhodd fechan iddi gan y pwyllgor. Ar ôl y cinio cafwyd adloniant derbynol iawn. Daeth Mr John Hugh Hughes, prifathro ysgol Dolbadarn a pharti o blant yr ysgol i ddiddori'r pensïynwyr gyda'u canu swynol dan arweiniad eu hathrawes, Mrs Eirlys Pierce. Dilynwyd cyfraniad y plant gan berfformiad gan 'Rovi' am ddiddori'r pensïynwyr yn ddi-dâl. Cyn gadael yr ystafell bu Rovi yn tynnu'r enwau lwcus o'r bag du i roi gwybodaeth pwy fyddai'n ennill y raffl.

Cyn diwedd y prynhawn cafwyd ychydig o ganu gyda Mr Huxley Thomas yn cyfeilio. Gwir fwynhawyd pnawn difyr dros ben, pawb yn gwerthfawrogi'r canu swynol gan y plant, a diyfrrwch doniol y consurwr.

Y CLWB METHEDIG: Trefnwyd noson o chwarae 'Bingo' yng Ngwesty'r Gwynedd ar Chwefror 17, a gwnaed elw o £93 i Gronfa'r Clwb Methedig. Dymuna'r pwyllgor a'r aelodau i gyd ddiolch i bawb am eu cyfraniad a'u cefnogaeth i'r noson ddifyr hon.

DIOLCH: Dymuna Alun Hughes, 9 Rhes y Faenol, Llanberis ddiolch o galon i'r teulu a ffrindiau am eu caredigrwydd ac am y cardiau ac anrhegion a dderbyniodd tra yn Ysbyty Môn ac Arfon, Bangor ac wedi iddo ddychwelyd adref.

NOSON GYMDEITHASOL CLWB Y MAMAU



Lluniau a dynnwyd yng Ngwesty'r Fictoria nos Wener, Mawrth 2 (drwy garedigrwydd Arwyn Roberts).

LLANRUG

Gohebydd: Mrs Eirlys Pierce, Swyn-yr-Awel (C'fon 3776)

CYFARFOD Y CHWIORYDD: Cynhaliwyd cyfarfod y chwiorydd yn Ffestri Ponrhythallt pnawn lau Mawrth 15. Llywyddwyd gan Mrs M. Lloyd Williams a darllenwyd rhan o'r Ysgrythur gan Mrs Parry, Bro Rhythallt. Cafwyd sgwrs ddiddorol gan Mr Pritchard, Cwm-y-glo a diolchwyd iddo gan Mrs N. Pritchard, Glanfa, a Mrs W.A. Jones, Dalar Deg. Bydd y cyfarfod nesaf pnawn lau, Ebrill 19 am 2.30 o'r gloch.

Y GYMDEITHAS UNDEBOL: I derfynu tymor y Gymdeithas dathlwyd Dydd Gŵyl Dewi ym Mhlas Tan Dinas. Llywyddwyd y cyfarfod gan y Parch Erfyl Blainey. Cafwyd anerchiad ac atgofion am y fro gan y gŵr gwadd, Mr Peris Jones Evans, Y Bala, mab y diweddar Mr G. Jones Evans a Mrs Evans, Bro Rhyddallt.

Yn dilyn cafwyd detholiadau ar y delyn gan Miss Modlen Lynch. Sgets gan chwiorydd Tan-y-coed, ac adroddiadau a pharti canu gan chwiorydd Ponrhythallt.

Talwyd diolch i Mr Jones Evans a phawb a gyfrannodd i lwyddiant y noson gan y Parch W.O. Roberts a'r Parch John Morris.

Gobeithir cael taith hanesyddol ym mis Mehefin gyda'r Parch John Morris fel hanesydd. Dewiswyd swyddogion ar gyfer tymor 1984-85—Llywydd: Y Parch Erfyl Blainey, Trysorydd: Mrs J.L.I. Williams, Bod Fair, Ysgrifenyddes: Mrs E. Wh. Thomas, Dolwar.

CYDYMDEIMLIR â theulu 38 Bro Rhyddallt ym marwolaeth Mr Robert Williams.

Y SEINDORF: Ar noson Gŵyl Dewi roedd aelodau'r Seindorf yng Nghlwb y Crosville yng Nghaernarfon yn rhoi cyngerdd.

Mae Siân W. Jones i'w llongyfarch ar ddod yn gydradd 3ydd yn yr Unawd Offerynnol o dan 12 oed, ac yn ail yn yr adran o 12-15 oed yn Eisteddfod yr Urdd yn Ysgol Brynrefail ar Fawrth 10.

Enillwyr y 'Pontoon' am yr wythnos yn diweddu Chwefror 25 oedd Mrs Betty Roberts, Deian Roberts, Mrs Marian Jones a Mrs Jane Williams, i gyd o Lanrug.

CYDYMDEIMLWN: yn ddiffuant â Mrs W.O. Roberts, Manod yn ei phrofedigaeth o golli ei brawd yng nghyfraith.

APWYNTIAD: Apwyntwyd Mr Gareth Wyn Pritchard, mab Mrs Katie Pritchard, 2 Tai Tan-y-coed a'r diweddar Mr David John Pritchard yn brifathro Ysgol Nant y Coed, Cyffordd Llandudno. Prifathro Ysgol Tal-y-bont Conwy yw Mr Pritchard ar

hyn o bryd. Bydd yn dechrau yn ei swydd newydd ym mis Medi.

MERCHED Y WAWR: Ddydd Mawrth, Mawrth 13 cyfarfu'r gangen leol yng Ngwesty'r Foelas i ddathlu Dydd Gŵyl Ddewi.

Daeth cynulliad da o'r aelodau ynghyd. Llywyddwyd gan Mrs Ann Llwyd Jones a'r gŵr gwadd oedd Mr Ifor Bowen Griffith. Estynnodd y llywydd groeso cynnes i'r gŵr gwadd.

Paratowyd bryd o fwyd blasus ar ein cyfer ac yna cafwyd gwledd o fath arall, mwynhad o wrando ar Mr Griffith yn rhoi inni, yn ei ffordd unigryw ei hun, atgofion o'i blentynod yn Nhregarth o ddyddiau coleg ac o ddyddiau Sarnau, gan roi'r pwyslais ar y cymeriadau gyfarfyddodd a'u dylanwad arno.

Wrth orffen ei sgwrs diolchodd Mr Griffith mai Cymro oedd ein Nawddsant ni—Dewi Sant—a dyn da sydd â'i ddylanwad yn parhau hyd heddiw.

CYFARFOD SEFYDLU'R PARCH JOHN MORRIS, B.D.

Yng Nghapel Mawr Llanrug, nos Fercher, Mawrth 14 fe sefydlwyd y Parch John Morris, B.D., yn weinidog ar eglwysi Capel Mawr, Llanrug; Ceunant; Ponrhythallt; Tan-y-coed a Brynrefail, gan Lywydd yr Henaduriaeth, y Parch W.R. Williams.

Bu'r Parch John Morris, sy'n enedigol o Landdaniel ym Môn, yn weinidog yn Llanrhaeadr-ym-Mochnant a'r cylch am dros dair blynedd a daeth cynrychiolaeth gref iawn oddi yno i'r cyfarfod i dystio i boblogrwydd eu cyn-weinidog.

Agorwyd y cyfarfod gyda gweddi ac emyn gan y Parch W.R. Williams; darllenwyd darn o'r Ysgrythur gan y Parch Owen Lloyd, B.A., ac offrymwyd gweddi ymhellach gan y Parch Gwyn Rhydderch, B.D., Llanymddyfri, yn absenoldeb anorod y Parch Ifan R. Roberts, Llanfihangel-Glyn-Myfyr.

Cafwyd hanes yr alwad gan Mr Iolo Llywelyn, M.A., a soniodd am y cydweithio hapus fu yn y pwyllgorau ac am y bleidlais unfrydol i alw Mr Morris yn weinidog ar yr ofalaeth.

Cyflwynwyd y gweinidog ar ran gofalaeth Llanrhaeadr-ym-mochnant gan Mr Emrys Evans, Cymdu, ac ar ran Henaduriaeth Trefaldwyn Isaf gan y Parch Hartwell Ll. Morgan, Llanfaircaereinion. Offrymwyd gweddi ar ran y gweinidog gan y Parch John Pritchard, B.A., B.D., Abersoch.

Croesawyd y gweinidog a'r teulu ar ran yr ofalaeth gan Mr D. Glynne Owen ac ar ran yr Henaduriaeth gan y Parch Trefor Lewis, B.D., Deiniolen,

ac ar ran eglwysi'r cylch gan y Parch Erfyl Blainey.

Traddodwyd siars rymus iawn i'r eglwysi gan y Parch Eifion Williams, Botwnnog, gynt o Ddeiniolen, cyfaill i'r Parch John Morris.

Gweddiwyd ar ran yr eglwysi gan y Parch W.O. Roberts, cyn-weinidog yr ofalaeth ac yn ei ymateb cyfeiriodd y Parch John Morris ei fod ef yn ei theimlo'n ffrainc fawr i olynu y gŵr grasol ac ymroddedig hwn a dreuliodd un mlynedd ar hugain fel gweinidog yr ofalaeth, a gobeithiai y byddai ef yn was yr un mor ffyddlon i'r Arglwydd lesu ag y bu Mr Roberts. Yr oedd Mr Morris yn falch iawn bod y Parch a Mrs W.O. Roberts yn parhau i fod yn aelodau o'r ofalaeth ac yr oedd yn ddiolchgar iawn iddynt

am eu cefnogaeth a'u gweddiau.

Yr organyddes oedd Mrs N. Lovatt. Yr oedd yn bresennol yn ogystal â c h y f e i l l i o n Llanrhaeadr-ym-Mochnant deulu i'r Parch a Mrs John Morris, a llawer iawn o'u cyfeillion.

Darparwyd lluniaueth ar eu cyfer gan gynrychiolaeth o chwiorydd yr ofalaeth a diolchwyd iddynt am eu croeso gan Mr Hubert Buckley, Pentrefelin.

Estynnwn groeso cynnes i'r Parch a Mrs John Morris, Rhys a Llŷr i'n plith gan ddeisyfu bendith yr Arglwydd arnynt fel teulu, ac ar yr eglwysi o dan ei ofalaeth.

MEGAN WILLIAMS
Ysg. Pwyllgor yr Ofalaeth



EISTEDDFOD YR URDD: Cylch Arfon. Canlyniadau Ysgol Gynradd Llanrug: Unawd Cerdd Dant dan 8 oed: Llŷr Siôn Roberts (3). Unawd ac Unawd Cerdd Dant (8-10 oed): Lowri Angharad Roberts (3). Unawd, Unawd Cerdd Dant, Unawd Alaw Werin dan 12 oed: Ffion Jon Williams—tair gwobr gyntaf. Unawd Offerynnol dan 12 oed: Gwenan Maic Roberts (1) a Siân Wyn Jones (3). Deuawd dan 12 oed: Gwenan Maic a Lowri Angharad (2). Parti Dawns Werin dan 10: Parti Iola (1), Parti Dawns Werin dan 12: Parti Dewi (3), Parti Unsain: Parti Iestyn (1), Parti Lowri (2). Parti Cerdd Dant: Parti Ffion (1). Parti Recordyddion: Parti Denise (1). Cyd-adrodd: Parti D.C. 10 (1). Parti Deulais: Parti Anwen (2).

Aeth y buddugol ymhob cystadleuaeth ymlaen i Eisteddfod Sir Eryri ym Mangor ddydd Sadwrn diwethaf. Unwaith eto enillodd Ffion Jon y dair cystadleuaeth rhwng 10 a 12 oed. Daeth Gwenan Maic yn 3ydd ar yr unawd offerynnol ond yn fuddugol, gyda Lowri Angharad, ar y ddeuawd. Bydd pump o bartion o'r ysgol yn mynd i Eisteddfod Genedlaethol yr Wyddgrug.

Parti Dawns Werin dan 10 oed: Parti Dawns Greadigol; Parti Adrodd D.C. 10; Parti Unsain y Bechgyn a'r Parti Cerdd Dant.

GENEDIGAETH: Llongyfarchiadau i Rhainnon a Derwyn Roberts, Crud-yr-Awel, Bontnewydd ar enedigaeth eu mab bychan, Geraint Henry, ar Chwefror 26, ŵyr i Mr a Mrs Ieuan James, Bryn Mair. Ein dymuniadau gorau iddynt fel teulu.

DATHLU PRIODAS AUR: Llongyfarchiadau i Mr a Mrs T.W. Thomas, Berwyn ar ddathlu eu priodas aur ar Fawrth 29.

Mae Mr Thomas wedi bod dan lawdriniaeth ac wedi treulio rhai wythnosau mewn gwahanol ysbytai. Mae ar hyn o bryd yn ysbyty Gallt-y-sil Caernarfon. Ein dymuniadau gorau iddo am adferiad llwyr.

SWYDDI NEWYDD: Llongyfarchion i Mrs Megan Roberts, Gregynog ar ei phenodi yn Bennaeth Adran Cerdd, Ysgol Brynrefail Llanrug, a Mr J. Gareth Williams, Gwydryn Newydd ar ei benodiad fel athro Crefft a Dylunio yn Ysgol Syr Hugh Owen, Caernarfon. Byddant yn dechrau ar eu gwaith fis Medi eleni.

M. ROWLANDS MONUMENTAL MASONS

LLANRUG

Ffôn: Caernarfon 2898

(Sefydlwyd ers dros 35 mlynedd)

Crefftwaith llaw, e.e., Old English/Gothic gan un â thros 32 o flynyddoedd o brofiad

Cerrig newydd a gwaith adnewyddu:
dim ots pa mor bell

Stoc helaeth o'r cerrig gorau:
dyfynbris am ddim

AR AGOR 6 DIWRNOD YR WYTHNOS

WELDIO OFFER FFERM A PHEIRIANNAU DIWYDIANNOL

GWNEUD GIATIAU,
FFENSYS AC ATI
AR GYFER Y CARTREF

ATGYWEIRIO TAI
GWAIR

E. PUGH

WELDING &
FABRICATING
32 GLANFFYNNON
LLANRUG

Ffôn: Caernarfon 5394

GWASANAETH TRIN GWALLT YN EICH CARTREF

Linda

MOBILE HAIRDRESSER

Lliwedd

Ffordd
Glanmoelyn

Llanrug

Ffoniwch

CAERNARFON 3674

i drefnu amser



HELYNT Y BWRDD PING-PONG gan Goronwy Owen

"Dowch hogia, mae ganddom fwrdd ping pong i chi."

"Table tennis, nid ping pong."

"Wel galwch chi o beth fynnoch. Ydach chi'n dod i'w nôl, hefo mi?"

"I ble?"

"I cwt billiards."

"Bwrdd cwt billiards yda ni wedi'i brynu?"

"Ia."

"Am faint?"

"Pum punt. Pwy sy'n dod i helpu i'w gario?"

Cododd tua dwsin o'r bechgyn, a ffwrdd â nhw hefo Bob Owen. Roedden ni i gyd yn gyfarwydd â'r bwrdd, ac wedi chwarae arno droeon, ar ôl iddo ddisodli'r bwrdd billiard bach yng nghwt Ingam.

Roedd o wedi'i wneud, rwy'n credu, gan Georgie Pari. Bwrdd solat o lawn hyd, heb blygiad o gwbl ynddo, ac wedi'i sefydlu ar ffrâm drom. Chymerodd hi ddim llawer o amser i'r llanciau cryfion ei gario i lawr i Lan Dŵr. Yna, aethom ati i'w gael i fyny i'r ystafell fawr. Buan y deallasom nad oedd gennym obaith drwy'r grisiau cul oedd yn arwain i mewn. Cymerodd Bob y cyfrifoldeb.

"Tynnwch y ffenest fawr allan o'i ffrâm. Rhaid i ni godi hwn trwyddi."

Dwylo prysur, gormod os rhywbeth yn cipio'r ddau hanner allan, ac yn eu gosod yn ofalus o'r neilltu yn yr ystafell fach.

"Reit, chwech tu allan i'w godi, a'r lleill yn fan hyn i'w dynnu i mewn."

Hanner dwsin ohonom yn mynd lawr y grisiau, i droi'r bwrdd ar un pen, a'i godi fel pluen i fyny at y ffenest.

"Mi yda ni wedi'i gael o. Codwch o fymryn bach yn uwch," meddai rhywun o'r criw tu fewn. Codasom o i fyny hyd braich.

"Tipyn bach mwy."

"Fedra ni ddim. Dowch â chadeiriau i lawr i ni."

Daeth y genethod oedd yn gwylio'r cyfan gyda diddordeb mawr, a phedair neu bump o gadeiriau i ni, rhai ohonynt yn ddigon sigledig, oherwydd hen gelfi wedi eu begio oedd y cyfan.

Fe osodom y bwrdd i lawr ar ei ben, trefnu'r cadeiriau yn ofalus, sefyll arnynt, ac yna, hefo tipyn mwy o bwyll, codi'r bwrdd i fyny gyferbyn â'r ffenest.

Ond doeddem ni ddim gwell allan. Doedd y bechgyn yn y ffenest yn gallu gwneud dim ond crafachu ar yr un goes oedd o fewn eu cyrraedd, ac roedden ni yn sefyll ar

ein cadeiriau, ein dwylaw uwch ein pennau, yn dal y bwrdd fel delwau ar Faes Dre.

"Well i un neu ddau ohonoch fynd i'w helpu."


Neidiodd dau i lawr oddi ar eu cadeiriau a ffwrdd â nhw i gynorthwyo'r rhai oddi mewn.

Roedden ni yn yr un twll. Rhedais i i mewn, i roi help llaw, ond i ddim diben. Tu allan i'r ffenest oedd y bwrdd o hyd.

"Hei! Help! Dowch yma rhywun i fy helpu."

Yn ein eiddgarwch, roedden ni i gyd wedi gadael Bob ar ben ei hun. Roedd y sefyllfa yn chwerthinllyd. Dyna lle roedden ni i gyd yn gwthio'n gilydd i geisio gafael mewn un coes i'r bwrdd, a Bob yn sefyll ar rhyw hen gadair fach dila yn dal y bwrdd trwm ar ben ei hun bach. Yn wir, wrth edrych yn ôl, roedd y safle yn hynod o beryglus, nid yn unig i Bob, ond i unrhyw un ddigwyddai gerdded heibio. Aethom ato, a rhoi'r bwrdd i lawr i ailgysidro'r broblem. Tydi hi byth yn hollol ddu wyddoch chi. Ar y noson dywylla mae yna rhyw lecyn o oleuni yn dod o rhywle. Yn y Naffi yng ngwaelod Glandŵr roedd un o'r milwyr wedi bod yn ein gwylio. Ysgotyn ydoedd, un oedd yn aml wedi dod i fyny'r grisiau atom, yn enwedig os câi gyfle i ganu "I belong to Glasgow". Fe ddarganfu ef ddernyn o raff yn rhywle, a dyma aildrefnu'r gwaith, hanner i godi'r bwrdd i'r ffenest a hanner i'w dderby. I fyny â fo, ac yna taflodd ein cyfaill cymwynasgar y rheffyn tros y goes bella. Tynnu ar y rhaff ac roedd y bwrdd yn codi fel braich signal L.M.S. Nawr, roedd gennym ddwy goes i afael ynddynt, ac fe ddaeth y bwrdd i mewn fel ruban, ond roedd yr un goes y buom yn tynnu arni wedi cael ei sigo yn y cymal, ac felly y bu am weddill yr amser.

Fe wnaethom ddefnydd da o'r bwrdd tenis yna, er bod yr ystafell braidd yn fach iddo. Darfyddai



ambell i bêl ei gyrfa yn y tân, ac aeth llawer i un i lawr y grisiau i'r ffordd, ond fe gawsom hwyll a sbort diferys.

Ydy o wedi mynd yn goed tân bellach, ai ydy o'n dal i fod o fudd yn

rhywle? Gwn i Bob fwynhau llawer i gêm arno hefo'r aelodau. Prynu'r bwrdd oedd dim ond un o'r gwithredoedd da a wnaeth ef i'r ieuenctid yn yr Aelwyd.



CYNLLUN ARDAL

**ARFON WLEDIG
RURAL ARFON**
DISTRICT PLAN

EICH CYNLLUN ARDAL CHWI

Mae'r Cyngor yn darparu cynllun ar gyfer ardal Arfon Wledig.

Dewch i garafan y cynllun i leisio eich barn.

MANYLION ARDDANGOSFA DEITHIOL

EBRILL:

11 BONTNEWYDD

12 CAEATHRO

13 WAUNFAWR

16 BRYNREFAIL

17 CWM-Y-GLO

18 LLANRUG

19 PENISARWAUN

25 DEINIOLEN

26 DINORWIG

MAI:

3 LLANBERIS

Hefyd mae copïau o'r dogfennau i'w gweld mewn llyfrgelloedd lleol ac yn swyddfeydd cynghorau lleol

**GWYLIWCH AM BOSTERI YN EICH
CYNEFIN CHWI**

CYNGOR BWRDEISDREF

ARFON

BOROUGH COUNCIL

CWELLYN, Ffordd Llanberis, Caernarfon.
Tel: CAERNARFON (0286) 4522


LLEUFER O. ac N. PRITCHARD

CANOLFAN CARPEDI WAUNFAWR



Ffôn 291

(yn ystod oriau agor)



GWLÂU SENGL O £39 I FYNY

GWLÂU DWBL O £75 I FYNY

DEWIS EANG O '3 PIECE SUITES'
O £200 i £800

LLENNI 'VENETIAN' A LLENNI 'ROLER'

5000 LLATHEN SGWÂR O GARPEDI MEWN STOC
- ALLWCH CHI Fforddio Prynu o Batrymau?

AR AGOR
9-7pm
9-5pm Sadwrn
AR GAU
SUL,
MERCHER.

CHWILOTA

(Bwriad y gyfres hon yw 'chwilota' i hen hanesion, chwedlau a digwyddiadau yn ardal bro'r 'Eco'. Esgryn sychion yn unig fydd y mwyafrif ohonynt, ond gobeithir cael mwy o gnawd ar ambell un gyda help y darllenwyr. Os oes gan unrhyw un sylw neu wybodaeth ar unrhyw destun yn y gyfres, byddwn yn falch o glywed gennych. Anfonwch eich cyfraniadau i'r Golygydd Erthyglau.)

"GEIRIAU AR GOLL" MWY O HANES DEWI PERIS

Yn Llanberis y ganed David Michael Jones, yn fab i Michael Jones, ac ŵyr i William Siôn, Bryn Coch. (Ceir rhwyfaint o hanes y William Siôn hwn yn y bennod ar 'Hebron', "Hanes Methodistiaeth Arfon" gan William Hobley.) Yn ôl William Ryle-Davies (Y Geninen; Gŵyl Dewi, 1892), Bryn Coch oedd y ffermdy uchaf ar ochr yr Wyddfa, ac mai "un o deulu Bryn Coch" oedd Dewi Peris. Nid yw'n honni mai yno y'i ganed, ond nid yw chwaith yn rhoi enw cartref iddo. Tybed ai ym Mryn Coch yr oedd yn byw pan yn blentyn? Mae Mr Morris Ivor Jones, Wrecsam yn anghytuno. Meddai yn ei lythyr hynod ddiddorol: "Fe'i ganwyd yn Llanberis; yn un o'r bythynod bychan dwy ystafell o'r enw 'Bing' oedd yng ngodre'r coed rhwng y ffordd i'r Wyddfa a'r afon Hwch."

Treuliodd ei flynyddoedd cynnar yn Llanberis, ond yna, symudodd i Ddeiniolen i fyw. Fel hyn y dywed W. Ryle-Davies "Nid wyf yn gwybod faint oedd oed Dewi Peris pan symudodd ei dad o Lanberis i Ddeiniolen i fyw. Ond yn Neiniolen y treuliodd ei oes." Sylwer mai sôn am "ei dad" yn unig a wna. Ond meddai G. Pennar Griffiths (Blodau Cudd ar Faes Awen: 1906) "Symudodd gyda'i rieni i Ddeiniolen". Mae Morris I. Jones yn wahanol eto: "Collodd ei fam yn bur ifanc, ac aeth i fyw at ei fodryb i Brynrefail. Ar ôl gadael yr ysgol aeth i weithio i ran uchaf Chwarel Dinorwig." Pwy felly sy'n iawn? Nis gwn beth oedd enw ei fam, na pha bryd y bu hi farw. A phwy tybed oedd ei fodryb ym Mrynrefail?

Beth bynnag oedd yr achos iddo symud o Lanberis, gwyddom ei fod yn byw yn Neiniolen neu Glwt-y-bont erbyn 1859, a'i fod yn ŵr priod cyn hynny. (W. Ryle-Davies) "Fe gafodd droedigaeth yn ystod y diwygiad hwnnw (sef 1859) trwy offerynoliaeth gair o eiddo David Prichard, hen frawd oedd yn flaenor yn Disgwyllfa. Yr oedd yr hen frawd wedi cymell llawer ar Dewi i ddyfod i'r eglwys; ond nid oedd dim yn tycio. Un bore, fel yr oedd Dewi yn mynd heibio i gartref David Prichard at ei waith, dywedai yr hen frawd, gan amneidio a'i ddwyllaw: 'Rwyf ti'n mynd eto, Dafydd' a dyna'r cwbl." Yn ôl traddodiad, bu hyn yn achos ei droi at yr eglwys, a hefyd yn achos iddo sgwennu'r gerdd ganlynol:

"Rwy'n Mynd"

Rwy'n mynd i rywle, mynd o hyd,
A mynd mae popeth fedd y byd;
Mae'r afon fach yn mynd i'r môr,
A'r gwynt yn mynd ar arch yr lôr;
Mae'r haul a'r lloer a'r sêr uwchben
Yn mynd yn gyson drwy y nen;
A mynd fel llwythog long mae'r byd,
Er maint ei ferw, mynd o hyd.

Rwy'n mynd i rywle nos a dydd,
Yng nghwsg ac effro, llon a phrudd;
Pan yn dychwelyd o fy ngwaith
Rwy'n mynd yn brysur ar fy nhaith;
A phan yn eistedd wrth y tân
I geisio llunio hyn o gân,
Rwy'n mynd i rywle, ond i ble?
I bawb mae'n dywyll, ond Efe.

Rwy'n mynd ymlaen o fis i fis,
Yn llithro i lawr o ris i ris;
Rwy'n mynd yn wannach, ddydd i ddydd,
O nos i nos. O! syniad prudd!
Cyn hir fe ddywed rhyw hen ffrind
'Mod i fy hunan wedi mynd.

Dyma'r fersiwn a gyhoeddwyd yn 'Blodau Cudd ar Faes Awen', ond mae amrywiad arall i'r trydydd pennill:

Rwy'n mynd ymlaen o fis i fis,
Yn llithro i lawr o ris i ris;
Rwy'n mynd o haf i haf o hyd
Heb orffwys dim yn nhrwst y dydd;
Rwy'n mynd yn wannach, ddydd i ddydd,
O nos i nos - o syniad prudd!
Cyn hir fe ddywed rhyw hen ffrind
Fod Dewi Peris wedi mynd.

Diddorol fyddai medru darganfod pa fersiwn sy'n gywir. Unwaith eto, mae'n debyg mai'r unig ffordd o gael gwybod fyddai

dod o hyd i lawysgrifau Dewi Peris neu gael gafael ar gopi o'i lyfr 'Detholion o Ganeuon Dewi Peris Jones'.

Mae amryw o'r darllenwyr hefyd wedi sôn am Siart Achau a luniwyd gan Dewi Peris, ond nad oes neb yn gwybod beth ddaeth ohoni. Dywedir ei bod yn Siart Achau fanwl iawn, yn nodi holl deulu'r bardd. Os oes rhywun yn gwybod unrhyw beth am fodolaeth y Siart Achau, neu'n berchen ar gopi ohoni, byddai'n help mawr i ddatrys peth o'r dirgelwch ynglŷn â bywyd cynnar y bardd.

Awn ymlaen â'r hanes y mis nesaf.

GEIRIAU ERAILL AR GOLL

Diolch i lawer a ddaeth i gysylltiad â mi ynglŷn â chais Mr Goronwy Lewis. Cafwyd cyfeiriadaeth fanwl gan amryw, galwadau ffôn a llythyrau gan eraill. Diolch i bawb am gysylltu. Dyma'r penillion yn llawn:

Oen Bach

Mi welais oen bach yn cysgu
Yn ymyl y Garreg Wen,
A Chennin y Brain o'i gwmpas
A blodau'r drain uwch ei ben.

A dyna lle'r oedd yn cysgu
A'i wllân mor lân ac mor wyn;
Mi gerddais i'w ymyl i'w weled,
Ond cysgu yr oedd er hyn.

Mi godais ei ben i fyny,
Ond syrthiodd yn ôl fel plwm;
Peth rhyfedd dros ben oedd hynny -
Rhaid ei fod yn cysgu'n drwm.

Mi glywais ei fam yn brefu,
A brefu ar ymyl y cwm;
Ond nid oedd yn clywed m'oni -
Rhaid ei fod yn cysgu'n drwm.

Daw'r penillion allan o 'Alawon Gwion Bach' - y gerddoriaeth gan Annie Watts (Pencerddes Tawe), a'r geiriau o 'Llyfr Gwion Bach' (T. Gwynn Jones). Gyda llaw, enw arall ar Bwtsias y Gog neu Glychau'r Gog yw Cennin y Brain.

BRAWD A CHWAER



Mae'r brawd mawr yn y closiau erbyn heddiw yn ffermwr lleol, a'r chwaer fach ddireidus - pwy ydynt? Tynnwyd y llun tua hanner can mlynedd yn ôl. Peint o lefrith yn wobwr i anfonwr yr ateb cywir a agorir gyntaf!

Bistro 45 Stryd Fawr LLANBERIS

Ffôn: LLANBERIS 871 278

(Danny a Nerys Roberts)

Pryd gorau'r fro

Am yswiriant ar gyfer eich car, tŷ,
busnes, bywyd neu unrhyw angen arall
cysylltwch â

Robin Jones a'i Gwmni

Ymgynghorwyr Yswiriant
a Morgeisi

Llys Alaw
18 Stad Eryri
Bethel

Ffôn
Y Felinheli 670140

Regent House
Y Sgwâr
Llanrwst

Ffôn
Llanrwst 641154

ARWYDDOCAD LLEIHAD YNG NGRANTIAU'R LLYWODRAETH

Er gwaetha pwysedd trwm oddi wrth y Llywodraeth Ganol, fe fydd Cyngor Sir Gwynedd yn llwyddo i gynnal ei wasanaethau ar eu safonau presennol ym 1984-85. Fodd bynnag, oherwydd fod y Llywodraeth wedi gostwng eu grant o 70.4 y cant i 69.2 y cant o wariant y sir, mae'r Cyngor wedi gorfod codi trethi ychydig yn fwy na graddfa chwyddiant, o 136c yn y £ i 145c yn y £, codiad o 6.6 y cant.

Wrth gynllunio ar gyfer cyllideb 1984-85, fe ofnid ar un adeg y byddai'n rhaid i bob adran o'r Cyngor wynebu toriadau o 1 y cant. Ni fydd raid torri, fodd bynnag, ac fe all y rhan fwyaf o'r adrannau weithio ar lefel tebyg i 1983-84. Fe gaiff rhai adrannau godiad bychan yn eu cyllid mewn termau real, ond bydd gostyngiad bach mewn termau real yng nghyllid yr Adran Addysg, er na fydd safonau'n disgyn oherwydd lleihad yn nifer y plant o oedran ysgol.

Fe fu grantiau'r Llywodraeth yn werth 73 y cant o wariant cynghorau sir Cymru ym 1981-82, ond y mae hyn wedi gostwng i 69.2 y cant o wariant Gwynedd ar gyfer 1984-85, sy'n werth tua £4 miliwn i Wynedd yn nhermau heddiw. Golyga hyn fod symudiad pendant wedi digwydd yn y modd y telir am wasanaethau lleol, o'r talwr treth incwm i'r trethdalwr lleol. Pe bai'r grant ar gyfer 1984-85 wedi ei gadw ar lefel y flwyddyn flaenorol, fe ellid fod wedi cadw y codiad i lai na 5 y cant - ychydig yn llai na'r raddfa chwyddiant. Pe bai'r Grant Cymorth i'r Dreth i Gymru wedi ei gadw ar lefel 1981-82, fe fuasai Gwynedd, yn ôl pob tebyg, yn codi treth

17c yn y £ yn llai na'r 145c ar gyfer 1984-85.

Buasai codiad uwch yn y trethi wedi caniatáu peth gwelliant yn rhai o wasanaethau'r Cyngor, megis addysg, gwasanaethau cymdeithasol a ffyrdd. Ond fe fyddai'r Cyngor wedi cael ei gosbi'n llym gan y Llywodraeth drwy'r drefniadaeth ôl-grafangu, a fuasai wedi golygu codiad trethi llawer uwch.

Gellir dadansoddi'r cynnydd fel a ganlyn:

Cwyddiant	4.96
Costau dyled uwch etc.	0.71
Colli Grant Bloc	2.23
Llai o gymorth o'r balansau	1.31

9.21

Gwelliant net yng nghynnyrch treth geiniog

0.21

9.00

Dywedodd y Parch. Gyng. Richard Jones, Cadeirydd y Cyngor Sir,

"O dan yr amgylchiadau presennol, pan fo'r Llywodraeth Ganol yn rhoi pwerau statudol iddi ei hun i dorri ar lefelau trethi yng Nghymru, mae'n rhoi boddhad i mi ein bod yn gallu cadw safon ein gwasanaethau ar gyfer 1984-85. Ar yr un pryd, mae'n rhaid rhoi y bai am y ffaith fod y trethi wedi codi ychydig yn fwy na chwyddiant, ar y Llywodraeth. Pe baent wedi rhoi grantiau a thargedau realistig i ni, fe fyddai'r codiad wedi bod yn llai o dipyn. Nid yw'n gwneud synnwyr i mi eu bod yn sôn am dorri treth incwm ar yr un llaw, ac yn ein gorfodi ni i godi trethi ar y llaw arall."

Mae trethi Cyngor Sir Gwynedd tua lefel cyfartaledd siroedd Cymru, ar eu pennau eu hunain, a tua'r un lefel o'i gymharu â siroedd Cymru a Lloegr efo'i gilydd.

DYFODOL LLYN PADARN

Ymddiheuriad

I Mr D. Ellis, Brynrefail am i'w enw gael ei gynnwys fel cynrychiolydd o Gyngor Cymdeithas Llanberis yn hytrach na Chyngor Cymdeithas Llanddeiniolen. Derbyniwyd y wybodaeth gan gynrychiolydd o Awdurdod Dŵr Cymru, ac felly y cawsom y wybodaeth anghywir. Deallwn fod yr Awdurdod Dŵr wedi cynnwys enw Mr Ellis fel aelod o Gyngor Llanberis, a thrwy wneud hynny, roi'r argraff nad oedd neb yn cynrychioli Llanddeiniolen. Carwn eich sicrhau, bobl Brynrefail a'r cylch fod eich buddiannau'n cael y sylw dyladwy (gweler newyddion Brynrefail). Enghraifft arall o ddiffyg sylwgarwch yr Awdurdod Dŵr tuag at y cymunedau lleol.

DATBLYGIADAU PELLACH:

Cyfarfu Pwyllgor Rheoli Ymgynghorol Llyn Padarn ar nos

Iau, Mawrth 8 i drafod y posibilrwydd o drosglwyddo hawliau pysgota Cyngor Arfon i ofal Cymdeithas Pysgota Seiont, Gwyrfa i a Llyfni.

Deallwn fod Pwyllgor Polisi Cyngor Arfon wedi cyfarfod ar nos Fercher, Mawrth 14eg i drafod y posibilrwydd o drosglwyddo'r hawl pysgota, ac wedi penderfynu gwneud hynny. Penderfynir ar dermau'r les yn y cyfarfod llawn nesaf o'r Cyngor.

Y cwestiwn sydd raid ei ofyn yw - sut y gallai Pwyllgor Rheoli Ymgynghorol Llyn Padarn drafod yr hawliau pysgota cyn i Gyngor Arfon benderfynu eu trosglwyddo? A oedd angen Cyfarfod o'r Pwyllgor yn unig er mwyn trafod rhywbeth nad oedd sicrwydd ynglŷn ag ef? Ynteu a oes mwy o bethau'n digwydd yn y dirgel nag a wyddom? Croesawn unrhyw ymateb.

AMSER MAITH YN ÔL - CYFLWR Y FFYRDD -

LLYTHYR DIDDOROL YN Y NORTH WALES GAZETTE, Medi 1803

'Nos Fawrth, fel yr oedd gwraig weddw dlawd o'r enw 'Jane Morris, merch clochdydd Llanberis yn dychwelyd gartref o'r felin ar gefn merlen fechan, yn cael ei dilyn gan ei brawd yng nghyfraith, Owen Evan. Pan yn ceisio sarn beryglus o'r enw Corn-du, rhwng yr afon a'r llyn, oddeutu chwarter milltir yn uwch i fyny na'r gwaith copr, carwyd hi a'r ferlen i lawr gan y llifeiriant gwyllt i gyfeiriad y llyn. Ysgubwyd y ddyns druan oddiar yr anifail a bu fodd, ac nid ydynt wedi dod o hyd i'r corph hyd yn hyn. Hefyd dihangfa gyfyng gafodd y dyn rhag cyfarfod a'r unrhyw dynged wrth geisio ei hachub, ond yn ffodus daliodd ef ei afael ym mwng y ferlen a chyrrhaeddodd yr ochr draw yn ddiogel.

'Gellir sylwi fod y ffordd o Lanberis i Gaernarfon (y dref farchnad agosaf)

yn un o'r rhai mwyaf peryglus yn y Dywysogaeth, gan ei bod yn hynod greigiog ac anwastad, ac ar gyfartaledd prin y mae yna lathen o led ac mewn llawer man mor agos i ymyl y llyn fel y buasai un llithriad o eiddo march yn foddion i daflu y marchogwyr yn bendramwnwgl i'r dwfr islaw. Nid yw y pontydd sydd yn croesi'r afon ond ychydig blanciau neu gerrig hirion wedi eu taflu drosodd. y rhai sydd heb ganllawiau na dim math o amddiffynfa i'r neb sydd yn croesi, ac ar dymhorau llifddyfredd gorlifir hwy gan yr afonydd fel y gellir dweud fod y plwyfolion mewn perygl o golli eu bywydau wrth fynd i'r felin neu'r farchnad. Mae y plwyf yn rhy dlawd i allu fforddio cael ffordd newydd, nac ychwaith atgyweirio yr hen ffyrdd yn effeithiol."

TALWRN Y BEIRDD

Dyma gynhyrchion tîm Llanrug yn eu buddugoliaeth dros dîm Bro Alaw, Môn. Darlledwyd y rhaglen yn ystod mis Chwefror. Aelodau'r tîm yw Len Jones, Twrog Jones, Glyn Parri, Rhys Parri, John Roberts a Dafydd Whiteside Thomas.

1. Cwpled caeth ar gerdyn Ffolant:

Wyt fy haul, wyt fy eilun,
Wyt f'anywylaf, harddaf un!

2. Limerig: Blwyddyn Naid

Mae nain, sydd ymhell dros ei eiti,
yn achos embaras bach inni.

A hi'n flwyddyn naid

Fe'i teimlodd hi'n rhaid

I ofyn i taid ei phriodi.

3. Englyn yn cynnwys y gair "gwâr"

deirgwaith:

Y gwâr sy'n trefnu'n segura - y gwâr

Gyrcha'r gâd a'i hyltra,

Ninnau'n war wrthi'n chwara

Cristnogion a dynion da.

4 Pennill Ymson: George Orwell

Mae'r esgid yn sathru â'i di-ildio droed

Ar wyneb y gwannaf, fel y buodd erioed;

Y teyrn yn bonillefain mai pump, nid

pedwar,

Yw dau a dau, yn ein clustiau eiddgar;

A'r cwestiwn eleni, fel yn wyth deg tri,

Yw, ai ceidwad fy mrawd, fy mrawd

mawr, wyf i?

5. Cywydd: Yn Angladd Cymydog

Mae cyfandir o hiraeth

Yn y gwynt, a thi yn gaeth

Yn dy gell. Atgof bellach

Yw iaith mam a'i rhuthmau iach.

Yn y maes, ni chlywir mwy

Idiom, na cherdd gofiadwy.

Af i wynt rhai o'r fintai

Sy'n taeru, a mynnu, mai

Rigmarôl yw rheolau.

Ai dwy sy'n gywir, ai dau?

Ai berf neu adferf yw nos?

Ai un 'en' sydd mewn unnos?

Bellach 'does raid ymbwylio

A graen ein heniaith mewn gro.

Rwy'n graddol sylweddoli

Mae iaith pur yn fur i fi!

6. Triban beddargraff: Plymwr (Plymar)

Rhoi taw ar bob diferyn,

Â thro bach slic ei dwlsyn,

Ond heno'n llonydd dan y gro

Nid oes un tro'n ei gorffyn.

7. Cwpled caeth gyda'r odlau: Parot/pot

O Meri, mae fy mharot

A'i big yn hylif dy bot.

8. Cywaith rhydd - Telyneg 2 bennill:

Coeden

Hi a'i bath, yn eu gwyrddion caci,

Fartsiodd yn rhengoedd dros dir y deri,

Trwy y bur, hoff bau;

Ei llafnau llarwydd yn fidogau estron,

I fathru gweundir ac ystumio gorwelion

Ein treftadaeth frau.

Rhoddodd sofr o asid yn sugn

mawnogydd,

Fel cledd o'r waun, i wenwyno'r afonydd;

A'r dagrau yw

Fod cancr y pin yn rhuddin ein Cymreictod

-

O fewn ein rhisgl nid oes ond ceudod,

Yn bwyta i'r byw.

9. Hir-a-thoddad: Dinas

Mor hir yw'r gwewyr, mor oer yw'r gaeaf,

Yno'r anobaith sydd ar ei eithaf;

Yn hon y fwled ydyw'r cyfalaf

I'r gwyrdd a'r oren, a ddaw Gorffennaf

Gyda gwên a heulwen haf i'w h'ewlydd?

Ai ffydd o'r newydd ddaw â chynhaeaf?

10. Dychangerdd (dim mwy na 30 llinell)

gyda phob pennill yn gorffen:

"A dyma sut cafodd hi'r swydd."

Gwraig oedd yn eisiau i ben llanc y byd

Un annwyl, un addfwyn, un o fil;

Gwryf, wrth reswm, di-lychwin o'i chrud

Ond ffrwythlon - er mwyn parhau'r hil.

Un ferch oedd yn ffitio'r patrwm yn

rhwydd

A dyma sut cafodd hi'r swydd.

Protestant gadarn - nid Catholig rhonc

Ond uchel-eglwysig ei sedd;

Ysgafn ei throed, ond nid yn rhy sionc

Gosgeiddig, brenhinol ei gwedd:

Un ferch oedd yn ffitio'r patrwm yn

rhwydd

A dyma sut cafodd hi'r swydd.

Merch wedi'i lapio yng nghyfoeth ei gwlad

A gwerthoedd Shand-Kydd-aidd ei mam,

Merch a'i chyn-dadau yn Spencer eu stâd,

Etifedd na chafodd 'run cam;

Un ferch oedd yn ffitio'r patrwm yn

rhwydd

A dyma sut cafodd hi'r swydd.

Mam sydd yn ffit i roi' twysog mewn pram

A hyder yn argall i'w wthio,

Mam all ofalu am fab bach di-nam

(Heblaw pan ddaw gwyliu i sgio.)

Un ferch oedd yn ffitio'r patrwm yn

rhwydd

A dyma sut cafodd hi'r swydd.

Merch fydd frenhines ar Brydain ryw

ddydd,

Balch fydd ei deiliaid o'i thras;

Merch a fendithiwyd â rhyw nefol ffydd

Yn nhrefn ogoneddus y Plas.

Duwies Effesia aeth â'r gwaith yn rhwydd

A dyma sut cafodd hi'r swydd.

11. Englyn cywaith: Awyren Isel

Yn ei gwman o dan do - cwt yr ardd

Cwatiai Rob 'di 'rwymo

Ar wib daeth Harrier heibio

Hawdd dallt, fe'i rhyddhawyd o.

CEFNOGWCH EIN HYSBYSEBWYR

CHWARELWYR CABAN "STEAM MILLS" DINORWIG

"Ni'th ludd ing,
Ni'th ludd angau."

Gwasanaeth Coffa

(Memorial Service)
am

Fechgyn Caban "Steam Mills"
a aberthasant eu bywydau
1939 — 1945

WYN GRIFFITH.	GRIFFITH BEVAN LEWIS
ARTHUR WYN HUGHES.	DAVID CLOSS MORRIS
OWEN WYN HUGHES.	JAMES PARRY
KENNETH JONES.	THOMAS ROWLANDS
ELLIS ARVON JONES.	SAMUEL ROBERTS
EDWARD JONES.	HUGHIE THOMAS
DAVID R. JONES.	IFOR THOMAS
ELFED JONES.	GWILYM M. WILLIAMS
CHARLES JONES.	GRIFFITH J. WILLIAMS
EVAN LEWIS JONES.	ROBERT WILLIAMS

Cynhelir y Gwasanaeth yn y Caban, Mai 23ain, 1950

Argraffwyd gan Parry a' Feibion, Penygroes.

Yn rhifyn 90 o'r 'Eco' yr oedd llun o grŵp o chwarelwyr dan y pennawd "Achlysur arbennig o'r gorffennol". Yr achlysur oedd dadorchuddio Cofeb i gyd-chwarelwyr o Gaban 'Steam Mills' a gollodd eu bywydau yn ystod yr Ail Ryfel Byd.

Uchod mae llun o glawr taflen y Gwasanaeth Coffa a gynhaliwyd yn y Caban ar Fai 23ain, 1950.

Mae'r gofeb bellach wedi ei gosod yn Llyfrgell Deiniolen.

Daeth y wybodaeth uchod, y daflen, a'r llun o'r gofeb oddi wrth Mrs M.H. Morris, 91 Pentre Helen, Deiniolen.

CWMNI YSWIRIANT Y PRUDENTIAL CYF.

Y Cwmni Yswiriant sydd wedi bod yn
rhoi gwasanaeth i bobol y fro ers tros
100 mlynedd

Dyma restr o'r goruchwylwyr yn y gwahanol bentrefi
o'r fro:

LLANRUG, WAUNFAWR,
CEUNANT, TAN-Y-COED
a BETWS GARMON

GARETH JONES

Glyn Ceris, Waunfawr.
(Ffôn Waunfawr 392)

LLANBERIS, NANT PERIS,
CWM-Y-GLO, BRYNREFAIL
a DINORWIG

WILLIAM ROBERTS,

Hyfrydle Road, Capel Coch,
Llanberis (870471)

DEINIOLEN, PENISARWAUN,
SEION, LLANDDEINIOLEN,
TREGARTH, M. LLANDEGAI

JOHN R. JONES

Clarke Terrace, Ffordd Llanberis,
Caernarfon (4734)

RHOWCH GANIAD I'R 'DYN O'R PRW'
YNGLYN Â'CH

HOLL ANGHENION YSWIRIANT

GWASANAETH AR
EICH AELWYD

Prudential



'Band of Hope' Salem, Betws Garmon yn 1903 gyda bron i 50 o aelodau. Trist meddw Williams, Parc. Yn y llun gwelir ei ddiweddar dad, ei fodryb a'i hen-fodryb.



"Stretcher Bearers", Home Guard, Llanberis Faenol, Llanberis.



Tybed pa achlysur sy'n cael ei ddathlu yma? (Tai), Deiniolen. Sylwch ar y lori gyda'r llythrennau C.W.S. ar y faner yn y cefndir hefyd. Efallai fod y lori yn Neiniolen? Os oes rhywun â gwybodaeth...

Mae Trefnydd
Hysbysebion Eco'r
Wyddfa yn chwilio
am rhywun i'w
helpu gyda'r
gwaith o gasglu
hysbysebion.

Cyfle rhagorol i
helpu'r papur bro,
dod i adnabod
gŵyr busnes y
cylch a dysgu'r
grefft o werthu.

**Cysyllter â
John Roberts,
Trefnydd
Hysbysebion
Eco'r Wyddfa,
Bedw Gwynion,
Llanrug.
Ffôn: Caernarfon
5605**

RHOD

Diolch i'r canlynol
£5 - Mr John Shefferin,
Bryn Fforch, Nant Peris.
£5.00 - M. Roberts, Caernarfon a
C. Jones, Porthaethwy; Mrs J.
Williams, Ar-y-don, Borthygest.
£2.00 - Lynda ac Emlyn Davies,
15 Stryd yr Wyddfa, Llanberis;



Yr achos ddod i ben ddydd Sul, Mawrth 25, 1984. Llun trwy garedigrwydd Eurwyn



Llun gan Mrs M. Hughes, Penrhos, Rhes y



Tynnwyd y llun yn Tabernacl Terrace (Cae nau "C.W.S." a "TEA" arni. Mae'r llythrennau wnelo'r orymdaith rhywbeth â siop y Co-op yn y flwyddyn a'r achlysur, anfonwch air.

DION

Mair Rees Jones, Tan y Caerau, Clwt-y-bont. Di-enw, Ceunant.

£1.00 - Mr a Mrs O. Parry, 13 Pentre Helen, Deiniolen; Mrs A.J. Roberts, Bod Gwenallt, Llanberis 50c - Mrs Williams, 11 Cremlyn, Bethel

HOGIA'R PONC ABERDARON 1953



Llun gan Gwilym Thomas, Penlan, Deiniolen.

Mae
G. JORDAN

CEFN ELAN LLANRUG

wedi prynu busnes

ERIC GOVER LLANBERIS

I fenthyg cymysgwyr concrit, cludo llwythi ysgafn, clirio safleoedd a sbwriel ac am dywod, gro, brics ynghyd â gwaith trydanol fel o'r blaen

Ffoniwch:
CAERNARFON 3581

YCHWANEG O CHWARELWYR



Dau grŵp o chwarelwyr o tua 1925. Lluniau gan Mrs M. Hughes, Penrhos, Rhes y Faenol, Llanberis.



CYMDEITHAS ARCHAEOLEG LLANDEGAI A LLANLLECHID, CYNGOR AMGUEDDFEYDD YNG NGHYMRU, AG AMGUEDDFA GENEDLAETHOL CYMRU.

ARDDANGOSFA "LLECHI CERFIEDIG DYFFRYN OGWEN"

YNG NGHAPEL TABERNACL BETHE SDA

SADWRN 7^{fed} EBRILL, 1984 tan dydd LLUN PASG, 23 EBRILL

2 PM - 7.30 PM. LLUN - SADWRN. MYNEDIAD AM DDIM: CROESO I BAWB.

WAUNFAWR

Gohebydd: Mrs G. Jones, Rhandir Mwyn. (Waunfawr 626)

YR YSGOL FEITHRIN: Fe gynhelir yr Wythnos Garnifal eleni o Fehefin 25-30. Fe fyddem yn dewis y frenhines a'i gosgordd mewn noson goffi dan nawdd yr eisteddfod, yn Neuadd yr Eglwys ar Ebrill 6.

Yn ôl rheolau'r pwyllgor, ni chaniateir i frenhines 1983 na'i morwyn roi eu henwau ymlaen eto'r flwyddyn yma. Mae'n rhaid i'r ymgeiswyr fod yn bresennol yn y noson goffi neu fe dynnir enw arall allan o'r het.

Dathlwyd Gŵyl Ddewi eleni yng Ngwesty'r Dingles, Dinas Dinlle, cafwyd digon o hwyl wrth glywed atebion rhai yn y cwis 'Si!)) Siân'. Diolch i Lyn, Don, Alfie, Heulwen, Keith ac Iris am gymryd rhan.

Diolch hefyd i bawb arall a ddaeth gyda ni a hefyd i bawb a roddodd gefnogaeth.

Enillwyr y raffl:

1. 46 Llys yr Eifl, Caernarfon; 2. Eurwyn Williams, Parc; 3. Kevin, Swyn-y-gwynt; 4. Mrs Roberts, Fron Ol, eu; 5. Ioan Chessworth, Gerallt; 6. Maureen, 9 New Street, Caernarfon; 7. Yvonne Rowlands, 5 Bryn Golau; 8. H.F. Cormell, c.o. Eryldon, Caernarfon; 9. Elen, 2 Ffordd Wern, Caernarfon.

CANOLFAN WAUNFAWR: Y Gronfa: Dyma restr enillwyr y Clwb 300 am fis Chwefror - 1. £40, Mrs Southworth, Gwynant; 2. £25, Mr W.M. Catt, Smithy Garage; 3. £10, Mrs Owen, 7 Tref Eilian.

SEFYDLIAD Y MERCHED: Cynhaliwyd cyfarfod mis Mawrth o'r Sefydliad yn Festri Croes-y-waun; nos lau, Mawrth 1. Croesawodd Mrs C.A. Jones, y llywydd, Mrs Buddug Rowlands yn ôl ar ôl ei hanhwylder, a llongyfarchodd Mrs James, y wraig wadd ar enedigaeth ŵyr. Croesawyd Mrs Eryl Dooling, merch y llywydd, fel ymwelydd i'r cyfarfod.

Darllenwyd y llythyr misol a chofnodion y cyfarfod diwethaf.

I ddathlu Gŵyl Dewi cafwyd sgwrs ddiddorol gan Mrs James o Lanrug, a phryd ysgafn wedi ei drefnu gan yr aelodau. Cynhelir y cyfarfod nesaf nos lau, Ebrill 5. Bydd croeso cynnes i unrhyw un a hoffai ddod.

MERCHED Y WAWR: Cynhaliwyd cyfarfod o'r gangen nos lau, Chwefror 23, yn yr Ysgol Gynradd dan lywyddiaeth Mrs Gweneirys Jones. Cafwyd noson o'rannu a blasu a'r elw yn mynd at y Ganolfan. Enillwyd y raffl gan Mrs M.A. Owen, Tref Eilian.

CLWB 100 PLAID CYMRU: Dyma restr o enillwyr y Clwb am fis Chwefror: 1. Luned Roberts, Swyn y Gwynt, 2. Dr A.L. Miles, Tre Feddyg, 3. T.J. Griffiths, Ty'n 'Ronnen.

EISTEDDFOD YR ARDAL: Cynhelir Noson Goffi yn Neuadd yr Eglwys, nos Wener, Ebrill 6, yn dechrau am 6.30 o'r gloch. Croeso cynnes i bawb.

CYDYMDEIMLWN: yn fawr â Mrs K.W. Jones a'r teulu, Bron Eifion, yn eu profedigaeth lem o golli gŵr a thad hoffus, ac â Mrs A. Bennett, Llechwedd ar golli brawd.

Mae ein cydymdeimlad hefyd yn fawr â Mrs Hughes, 1 Tref Eilian a'r teulu yn eu profedigaeth sydyn hwythau.

YN YR YSBYTY: mae Mrs Oliver, Bryn Golau. Anfonwn ein cofion ati. Hefyd Mrs Lywela Davies, 20 Tref Eilian sydd yn ysbty yn Lerpwl. Dymunwn adferiad llwyr a buan iddi.

ADREF O'R YSBYTY: daeth Huw Ynyr, Tan y Fron, Mr Aled Williams, Bryn Celyn, Miss Jane Ann Owen, Castle View, Mr Arfon Hughes, Manchester House, a Mrs Williams, Tegannedd. Gobeithiwn eu bod i gyd

yn gwella.

LLONGYFARCHIADAU: i. Carys ac Edgar Owen, Lloches ar enedigaeth mab, Dewi Wyn, brawd i Elaine a Gwenno, ac i Mr a Mrs T.A. Thomas, Gilfach, ar fod yn daid a nain unwaith eto.

I Gwyneth Ellis, Glyn Awel, ar ennill Ysgoloriaeth i fynd i Gregynnog ar gwrs mewn Cyfrifiadureg.

YR URDD: Yn ystod y mis diwethaf, cafwyd y plant sgwrs a gweld sleidiau ar natur gan Mr Leslie Larsen, Penisarwaun, cwis hwyliog yng ngofal Mrs Olwen Williams, Llidiart Wen, a sleidiau gan Mrs Mary Vaughan Jones ar ei hymwelid ag Israel.

Bu rhai ohonynt yn brysur iawn hefyd yn gweithio ar gyfer yr Eisteddfod. O'r holl gystadlaethau a aeth o'r pentref (24 o wahanol eitemau) mae'r parti Cerdd Dant dan 12 oed a pharti unsain y merched dan 12 oed yn cystadlu yn yr Eisteddfod Sir ym Mangor yr wythnos nesaf. Yn yr adran celf a chreffft cafwyd Sam a Rachel Pierce 1af ar grochenwaith, a Rachel 3ydd ar collage, ac Osian 2il a Meilir 3ydd ar grochenwaith.

Ond mae Eisteddfod Sir y plant dan 15 oed wedi bod yn Llanrwst, ac 'roedd nifer o'r pentref yn cystadlu yno: Iwan Ellis ar y piano a'r fflwt, parti recorders, Llion ar y clarinet, grŵp offerynnol a pharti unsain. Llwyddodd Iwan ar y fflwt, y parti recorders a'r grŵp offerynnol i fynd i'r Eisteddfod Genedlaethol yn y Wyddgrug. Pob hwyl iddynt.

CLWB GWYRFAL: Ar Fawrth 1af derbyniodd aelodau'r Clwb wahoddiad gan y prifathro, Mr Leslie Jones i dreulio pnaun ddydd Gŵyl Dewi yn yr ysgol. Cynhaliwyd gwasanaeth a chyngerdd gan y plant bach, o'r Hafod, a rhai o'r dosbarthiadau uwch. Mwynhawyd te blasus wedi ei gyfrannu gan rieni plant Safon 4. Diolchodd ein llywydd, y Parch Trefor Jones i bawb oedd wedi cymryd rhan gan gynnwys staff y gegin, a chyfeiriodd at y cysylltiad cynnes sydd rhwng yr ysgol â Chlwb yr Henoed. Yn cynrychioli rheolwyr yr ysgol oedd Mrs A. Marsden ac Eurig Wyn, ac fel cadeirydd y rheolwyr talodd ef deyrnged i'r prifathro a'r athrawon am eu gwaith a brwdfrydedd gyda'r plant.

Mawrth 15 llywyddwyd y Clwb gan Mrs Morgan Jones yn absenoldeb y Ficer. Y wraig wadd oedd Mrs M. Vaughan Jones, Hafod y Coed, a roddodd hanes gwyliau a dreuliodd yn Israel ym 1983. Cawsom luniau lliwgar o'r wlad ar y sgrin ac hefyd wers ar ddaearyddiaeth a hanes cyffrous y Dwyrain Canol o oes y Rhufeiniaid a chyfnod oes Crist, hyd yr amser cythryblus presennol. Diolchwyd i Mrs Vaughan Jones gan Mrs Pritchard, Tref Eilian. Enillwyd y raffl, rhodd Mrs Jones-Evans, gan Mrs M. Lloyd Jones. Ar Fawrth 29 roedd Mrs Pat Skidmore gyda ni yn rhoi hanes ymdrech Antur Nantgwrtheyrn.

DIOLCH: Dymuna Carys ac Edgar Owen, Lloches ddiolch i bawb am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniwyd ar enedigaeth eu mab, Dewi.

BETWS GARMON

LLWYDDIANT: Llongyfarchiadau i Meirion Williams, Y Llythyr dy ar ennill gwobr am fod yn ddisgybl gyda'r canlyniadau gorau y llynedd yn y cwrs tystysgrif TEC mewn peirianwaith sifil yng Ngholeg Technegol Gwynedd.

CAU'R CAPEL: Daeth yr achos i ben yng nghapel Salem, bnawn Sul, Mawrth 25.

BRYNREFAIL

Gohebydd: Dafydd Ellis, Gweledfa (871223)

LLYN PADARN: Mae'n siŵr i chwi ddarllen mewn llythrennau bras yn rhifyn Mawrth o'r Eco, yr erthygl ar ddyfodol Llyn Peris a'r rhan hollol gam-arweiniol yn datgan diffyg diddordeb ym Brynrefail. Fe ŵyr darllenwyr yr Eco fod trigolion Brynrefail wedi bod yn gwbl effro i argymhellion y Bwrdd Dŵr cyn bodolaeth y pwyllgor rheoli, ac yn mynnu sicrhau parhad i'r hyn a gyfrir fel hawliau traddodiadol. Eich gohebydd pentref, Dafydd Ellis, yw eich cynghorydd ar Gyngor Cymuned Llanddeiniolen, ac ef hefyd sydd wedi ei benodi i gynrychioli'r cyngor ar y pwyllgor rheoli. Wedi derbyn aml sylwadau gan bentrefwyr, gallaf eich sicrhau fod y rhain wedi eu datgan yng nghyfarfod cyntaf o'r pwyllgor rheoli a gynhaliwyd ym Mhenrhos Bangor fis Mehefin 1983. Nid yw cofnodion y cyfarfod yma yn gwneud cyfiawnder â'r drafodaeth a fu - ac yn fwy na hynny mae'r cofnodion yn anghywir gan enwi Dafydd Ellis fel cynrychiolydd Llanberis yn hytrach na Llanddeiniolen. Dyma felly oedd gwraidd y camgymeriad. Gallaf eich sicrhau fod eich sylwadau a'ch buddiannau yn derbyn llawn ystyriaeth a chefnogaeth gan Gyngor Cymuned Llanddeiniolen. Nid oes diffyg diddordeb ym Brynrefail - nac angen anogaeth i bwyso ar neb - trigolion o Frynrefail a ddaeth â'r materion yma i sylw'r wasg am y tro cyntaf!

CLWB Y MAMAU: Bu'r aelodau yn ymweld â chrochendy'r 'Mugiau' yn Neiniolen, lle cafwyd arddangosiad o'r grefft o'r clai i'r llestr. Rhoddwyd mwg i bob aelod i gofio'r ymweliad a daethom yn ôl i'r ysgol fach am de a ddarparwyd gan Jinnie Williams a Jenny Hughes. Jinnie Roberts a gyflwynodd anrheg y mis, a Helen Jones a fu'n lwcus y tro yma. Penderfynwyd aildrefnu'r noson cyfarfod o nos lau i **nos Lun yn y dyfodol**.

PRIODAS RHUDDER: Pleser mawr yw llongyfarch Wil a Jenny Hughes, Bryn Garth ar gyrraedd y garreg filltir yma yn eu priodas. Daeth y wybodaeth i law oddi wrth eu merch, Nerys, gyda dymuniadau da a llongyfarchiadau oddi wrthi hi a Huw

ENWOGION EBRILL

3ydd - geni Islwyn 1832
geni Henry Richard 1811
marw Twm o'r Nant 1810

4ydd - marw Glasynys 1870

8ed - marw Griffith Jones, Llanddowror 1761

11eg - marw Lewis Morris 1765
marw Llywelyn ap Iorwerth (Llywelyn Fawr) 1240

16eg - marw Syr John Morris Jones 1929

20ed - geni Ieuan Glan Geirionydd 1795

23ain - marw Ceiriog 1887

25ain - ordeinio'r Ficer Prichard

CEFNOGWCH EIN HYSBYSEBWYR

ac hefyd i Nain a Taid oddi wrth Rhys, Gari ac Aled. Llongyfarchion hefyd oddi wrth Alci ac rwy'n siŵr y caf fanteisio ar y cyfle i fynegi dymuniadau am hapusrwydd a iechyd yn y dyfodol oddi wrth eich cymdogion a'r holl gyfeillion yn yr ardal.

CLWB PEDWARUGAIN: Enillwyr mis Chwefror - 3ydd: 1. Derek Davies, 2. Betty Owen (Tros Afon), 3. Rhian Jones. 10ed: 1. Sue Jones, 2. Colin Wager, 3. Moira Ellis. 16eg: 1. Mrs H.J. Jones, 2. Gwilym Jones, 3. Helen Roberts. 24ain: 1. Peggy Davies, 2. Myrddin Jones, 3. Carol Houston.

O BANTRI BETH



TEISEN AFAL PŪN

Bydd angen:

- 1 tun 8 owns o gylchoedd afal pŷn wedi eu sychu a'u torri
- 4 owns o raisins
- 4 owns o sultanas
- 2 owns mixed peel
- 2 owns coconut
- 6 owns menyyn
- 5 owns siwgr castor
- 3 wy mawr
- 8 owns o flawd codi
- 1 llond llwy de o mixed sbeis

Leiniwch waelod ac ochrau tun cacen 7" â phapur iraid.

Torrwch yr afalau pŷn a socian y ffrwythau sych, y 'pêl' a'r coconut yn y sudd.

Cymysgwch y siwgr a'r menyyn a churo'r wyau i mewn fesul un.

Ychwanegwch y blawd, y sbeis ac yna tywalltwch yr holl ffrwythau i'r gymysgedd.

Rhowch y cyfan yn y tun a'u coginio yng nghanol popty ar wres 325 F, 170 C neu Rif Nwy 3 am dri chwarter awr - yna, droi'r gwres i lawr i 300 F, 160 C neu Rif Nwy 2 am hanner awr arall.

IEUAN WILLIAMS Glanffrwd DEINIOLLEN Llanberis 870484

- * Bysus o 12 i 53 sedd
- * Teithiau Lleol a Thramor
- * Gwaith Contract
- * Telerau arbennig i bensiynwyr, myfyrwyr a phlant ysgol

Ffiniau'r Gorffennol

EISTEDDFOD GENEDLAETHOL FRENHINOL CYMRU 1984
LLANBEDR PONT STEFFAN A'R FRO

BŪM ar daith i Lanbedr Pont Steffan i gael sgwrs a manylion am Fro'r Eisteddfod gyda'r Trefnydd, Mr J. Idris Evans yn ei swyddfa yn Llanbedr (Llambled ar lafar) (Lampeter).

Gan fy mod yn adnabod Mr Evans, fe wyddai fy neges heb i mi orfod dweud. Cefais ei ganiatâd i roi'r manylion canlynol am Lanbedr Pont Steffan a'r fro. Gwn y byddwch chwithau'n falch o'r wybodaeth. Diolch yn fawr iawn i Mr Idris Evans. Er i mi gyrraedd ei swyddfa yn Llanbedr chwarter wedi deg yn y bore ar yr wythfed o Fedi 1983 yr oedd y Trefnydd wrthi a'i holl egni yng nghanol ei bapurau a'r ffurflenni. Ond toedd o ddim rhy brysur i gael sgwrs am Fro'r Eisteddfod Fawr fydd yno eleni.

MAES YR EISTEDDFOD

BŪM yn sefyll ar faes yr Eisteddfod y mae hwn ar lecyn dymunol iawn ar yr A475 sy'n arwain o'r dref i Lanwnnen a Chastell Newydd Emlyn. Mae'n dir gwastad a choed yn ei amgylchynu, prin hanner milltir o ganol y dref, felly mae ar safle gyfleus iawn.

Bydd ceir o'r gogledd yn dod yn syth i Llanbedr trwy Aberaeron a Thregaron; ceir o Gaerfyrddin yn cael eu cyfeirio trwy Lanybydder i Lanwnnen, a cheir Llandeilo a Llanybydder er mwyn osgoi canol y dref. Y mae meysydd parcio a charafanau hefyd yn ymyl y Maes ar ochr y ffordd.

PLAS FFYNNONBEDR

Yn ymyl y Maes fe welwch adfeilion yr hen blas yma y canodd Dafydd Dafis Castell Hywel ei englynion adnabyddus iddo.

Troir ei chain lydain aelwydau - 'n erddi

A gwyrddion weigrloddiau:

A mynych yr ych o'r iau

Bawr lawr ei gwyth barlyrau.

"mieri lle bu mawredd" a'r cwmp i'w briodoli i greulondeb y sgweier olaf Syr Herbert Lloyd. Glywsoch chi'r hanes am Siôn Phylip a'r hwrdd ddu?

BEDLAM

Mae'r gair bedlam wedi magu ystyr newydd oddi ar sefydlu Pwyllgor Ieuenctid Llambled a'r Fro. Dyma'r enw a roddir ar y Babell Ieuenctid - "Bed-lam" mae hwn fel y gwelwch yn drawsodiad ar "Lam-bed".

Y mae Bro'r Eisteddfod yn cynnwys yr hen Sir Aberteifi i gyd, a rhannau gogleddol o'r hen Sir Gâr.

BEIRDD A LLENORION BRO'R EISTEDDFOD

Mae beirdd a llenorion y Fro,

ddoe a heddiw yn ddirifedi bron. Dyma rai ohonynt: Dafydd ap Gwilym (cofiwch mai fel Dafydd Glan Teifi yr oedd llawer o'i gyfoeswyr yn cyfeirio ato); Lewis Glyn Cothi; Edward Richard; Ieuan Brydydd Hir; Lewis Morris (Llywelyn Ddu o Fôn, ie, ond bu'n byw yng Ngheredigion am chwarter canrif olaf ei oes!); Daniel Ddu o Geredigion; Dafydd Dafis Castell Hywel; Cergoch; Williams Pantycelyn; Y Ficer Pritchard; Dafydd Jones o Gaeo; Sarnicol; Beirdd y Mynydd Bach - J.M. Edwards, Prosser Rhys, R.T. Hopkins; Beirdd Ffair Rhos - Evan Jenkins, Dafydd Jones, W.J. Gruffydd; Dewi Emrys; Kitchener Davies; Bois y Cilie; D.J. Williams; Idwal Jones; Jacob Dafis. Y mae pump o feirdd cyfoes yn byw yno yn awr - Donald Evans, W.J. Gruffydd, T. Llew Jones, Dafydd Jones, Dic Jones. Gwelir cystadleuaeth arbennig yn Adran Celf a Chrefft wedi ei seilio ar waith y pump yma.

Oes rhywun all wadu nad yw Bro Eisteddfod 1984 wedi gwneud cyfraniad helaeth iawn i ddiwylliant Cymro?

LOGO'R EISTEDDFOD

Y mae symbol y Bont yn Logo'r Eisteddfod yn berffaith eglur i bawb, ac os ydych yn gyfarwydd â'r Testament Newydd gellwch ddehongli ystyr yr allweddi (agoriadau) a welir yn y Logo. Darllenwch Mathew 16, 18-19 adnodau. "Yr ydyf finnau yn dywedyd i ti, mai ti yw Pedr, ac ar y graig hon yr adeiladaf fy eglwys: ... a rhoddaf i ti agoriadau teyrnas nefoedd."

Y mae Llanbedr, wrth gwrs, yn cyfeirio at yr eglwys gafodd ei chysegru i'r Apostol Pedr mor bell

yn ôl â 1291.

Wel rŵan, mae egluro enw Pont Steffan yn fwy anodd! 'Does wneio'r enw ddim byd â Steffan y Testament Newydd. Un o ddilynwyr Gilbert Fitz Richard, Arglwydd Normaniaid Cyntaf Ceredigion yn y ddeuddegfed ganrif oedd hwn - ceir cyfeiriad ato ym 1609 fel "Y Stevyn a wnaeth Pont Llanbedr".

Y CASTELL

Ychydig iawn o bobl sy'n sylweddoli bod olion castell yn Llambled. Cafodd y castell ei adeiladu yma gan y Normaniaid - un o'u cestyll "mwnt a beili". Ceir

hanes am Owain Gwynedd yn dod i lawr o'r Gogledd gyda'i fab Hywel, ac yn ei gipio yn ôl oddi wrth y Normaniaid ym 1137. Ymosodwyd arno hefyd gan Owain Glyndŵr. Erbyn heddiw, 'does dim yn aros ohono ond twmpath mawr anniben reit o flaen drws ffrynt y coleg.

Y COLEG

Coleg Prifysgol Dewi Sant, Llanbedr Pont Steffan. Dyma goleg hynaf Cymru, ac o bosibl yr harddaf ohonynt i gyd o ran adeiladau.

Cewch hanes sefydlu'r Coleg a rhagor o fanylion am Llanbedr Pont Steffan a'r Fro y mis nesaf. A glywsoch chi sôn am y Smotyn Du?

ARDDANGOSFA CELFYDDYD GAIN

'Celfyddyd ar gyfer Gwestai Cymru'

Dyma wybodaeth am Arddangosfa Celfyddyd Gain a gynhelir yn Llanbedr Pont Steffan o dan nawdd Eisteddfod Genedlaethol Cymru.

Eleni, yn hytrach na threfnu cystadleuaeth ar destun gosod, sefydlwyd cronfa bwrcasu o £4,000, y swm mwyaf o'i fath yn hanes yr Eisteddfod. Defnyddir yr arian i brynu gweithiau o blith y rhai a arddangosir. Bydd panel o wŷr amlwg ac enwog yn gyfrifol am ddethol ar gyfer yr arddangosfa yn y lle cyntaf ac yna ar gyfer y casgliad arfaethedig.

Sefydlwyd y gronfa gan Mr Michael Forte, Rheolwr Gyfarwyddwr Gwesty St. George's, Llandudno, a Bwrdd Croeso Cymru. Dewisir a phwrcasir gweithiau celf addas i'w harddangos mewn gwestai yng Nghymru.

Y mae'r testun, y maint a'r cyfrwng yn agored cyhyd â bod y gweithiau yn rhai dau-ddimensiwn (arlunio, darlunio, printiad, ffotograff, collage, ac ati). Arlunwyr Cymreig, rhai a fu'n byw neu yn gweithio yng Nghymru er 1981, neu sy'n gallu siarad neu ysgrifennu Cymraeg, yn unig a gaiff gymryd rhan.

Wele felly gyfle arbennig i arddangos gwaith yn y Pafiliwn Celf a Chrefft ar faes yr Eisteddfod, canolfan sy'n denu 25,000 o ymwelwyr yn ystod wythnos yr Ŵyl ac yn derbyn sylw helaeth y cyfryngau yn ogystal. Ymbellach geill y gwaith gael ei bwrcasu a'i arddangos yn barhaol mewn gwesty yng Nghymru.

Ein gobaith a'n dyhead ydyw

gweld yr Eisteddfod ar y blaen, yn adlewyrchu celfyddyd gyfoes Cymru ar ei gorau. Rhan o gynllun i ddenu gwaith o'r safon uchaf a dwyn yr arlunydd a'i gynulleidfa ynghyd ydyw'r cyfeiriad newydd a sefydlir gan yr arddangosfa a'r nawddogaeth hael hon.


Os ydych am ragor o wybodaeth cysylltwch ag E. Heather Davies, Swyddfa Celf a Chrefft, 17 Heol y Bont, Llanbedr Pont Steffan (Ffôn: (0570) 423167)

EISTEDDFOD LWYDDIANNUS YNYS MÔN

Cyhoeddir fod mantolen Eisteddfod Genedlaethol Ynys Môn 1983 yn dangos gweddill o £10,000. Y mae'n swm calonogol iawn o gofio i ni amcangyfrif y byddai'n ofynnol, efallai, i'r Eisteddfod yn ganolog roi gwariant o £50,000 i ni rhag colled. Derbyniwyd £40,000 yn fwy na'r amcan a gwariwyd £20,000 yn llai.

Yr oedd yn Eisteddfod ddur; ond yr oedd yn Eisteddfod hynod gyfeithog hefyd - bu'n eithriadol lwyddiannus yn ddiwylliadol ac yn gymdeithasol. Bu'r Pwyllgorau yn uchelgeisiol gyda'u rhaglen, gan geisio cael y gorau o bob dim. Ond gweithiodd pawb at y nod gan dderbyn amodau'r ddisgyblaeth ariannol a osodwyd arnynt. Cynllunio llawn dychymyg, ymddisgyblaeth bodlon a brwdfrydedd mawr wrth gydweithio, dyna'r nodweddion a sicrhodd yn Llangefni y llynedd Eisteddfod gyda'r gorau erioed.

AM DRIP CYFFYRDDUS, DIOGEL A RHAD
I BLE BYNNAG Y BO . . .



**BWSIAU ARFON
LLANRUG
(ERIC MORRIS)**
Ffôn: Caernarfon 5175
neu Bangor 51981



**SNOWDONIA
FIRE
PROTECTION**

**YR HEN EFAIL
WAUNFAWR Ffôn 235**

Offer Diffodd Tân - Masnachol ac i'r Cartref
Goleuadau argyfwng Larwm Tân
Offer canfod mwg ar gyfer y cartref
Dewch i weld ein siop newydd - ar fin agor

ATGOFION AM GLWT-Y-BONT

(Rhyfel Byd Cyntaf hyd y tridegau)
gan Mrs Buddug Griffiths, Llanfaircaereinion

RHODDWYD hanes Ebenezer neu Lambabo ar gof a chadw yn llyfrau diddorol Mrs Graceie Owen, ac yn 'Rhiwen' Mr W.J. Hughes fel y gallwn gau'n llygaid ac ail-fyw yr 'hen amser' ond toes fawr o sôn wedi bod am Glwt-y-bont, er bod llawer ohono mewn bodolaeth cyn bod Ebenezer, serch hynny, pan ddywedai rhywun "Isio picio i'r pentre" at Ebenezer y cyfeirient.

Terfynau Clwt-y-bont yn fras fyddai o'r Ysgoldy a'r Cisl i Ben Inclen. O'r Ysgol a Disgwylfa ar draws tua Rhianfa a Phlas Tirion a'r tyddynnodd oddi amgylch, a'r pentre yn glyd yn y canol.

Ganed fi ym Mryn-du, felly trwy Glwt-y-bont yr awn i'r ysgol a'r capel a phob man arall. Rhedai Afon Caledffrwd trwy'r ardal a phum pont i'w chroesi. Pont Felin ger yr Ysgol. Pont Haeam yn is i lawr. Pont fach gul Teras, Pont Bryn Rhedyn, a phont gul Felin Sam. Oddi ar y pontydd cul gwelech fwrwm chwim yr afon. Yn y mannau lletaf a basaf i'r afon daliai'r hogiau frithyll a sili-dons gyda'u dwylo yn y dŵr clir caregog.

Ar y cyntaf deuai llechi o'r chwarel i lawr trwy Pen-bwlch a'r ddwy inclen i'r Sinc, dros Bont Haeam i'r ffordd haeam yn Ffridd Gerl tua'r Celyn ac am y Felinheli. Ceffylau â'u tynnai y dyddiau hynny. Yn sgîl y llechi'n dod y ffordd yma o'r chwarel y codwyd y melinau - pedair ohonynt - ar lan y Galedffrwd, mae'n siŵr. Yr oeddynt mewn bri rhyw gant ac ugain neu fwy o flynyddoedd yn ôl.

Melin Sam oedd y fwyaf, efallai, yn gwneud llechi ysgrifennu a'u fframio ar gyfer yr ysgolion. Gwnaent 'bensal lechan' hefyd i'w defnyddio gyda hwynt. Mr Samuel Jones oedd y perchennog. Heblaw y felin a'i dŷ, ef oedd piaŵ yr adeiladau mawrion sydd ar waelod Gallt Sam a'r caeau mawr tu ôl iddynt. Roedd yna Dai'r Felin hefyd ger Brynrhedyn canys cofiaf frawd a chwaer, Sidney a Rebecca, yn dod i'r capel a'r ysgol oddi yno. Adeiladodd Sam wal fawr o gylch ei dŷ a'i felin, fel na welais erioed y lle yn iawn, ond trwy sbecian trwy ddrysystyllod oedd ger Ty'n-gongl.

Yn ôl llyfr 'Rhiwen' W.J. Hughes, cododd ei daid (tad ei dad) felin yn y Cisl i (Califonia Terrace) mewn cystadleuaeth â Sam, ond trin llechi a wneid yno. Canai gloch am chwech y bore i ddechrau'r dydd, a chwech y nos i orffen a llawer o fechgyn o ddeg oed i fyny yn

gweithio yno am ddwy geiniog y dydd, a'r dynion fawr fwy (dyfynnu o'i lyfr).

Canlynwch yr afon i fyny heibio Bryn-rhedyn a Chae-rhedyn at Ben yr Olchfa. Cofiaf olwyn ddŵr ar y wal yn ochr Tŷ-bach Waun i'r afon, a'r dŵr wedi ei groni. Golchfa i beth oedd hon tybed? A melin beth?

Yn uwch i fyny'r afon heb fod nepell o'r ysgol roedd melin eto. Bu'r olwyn ar y wal uchel yn araf ddadfeilio yn hir - a chafnau wedi eu codi fel pontydd bach i ddod â'r dŵr i droi'r olwyn trwy gae Gorlan. Tu ôl i'r dorau mawr yr oedd iard helaeth gydag adeiladau Llofft y Felin a ddaeth yn 'Gwt Bands'. Yma hefyd y telid yswiriant yr Oddfellows, a dyna'u man cyfarfod.

Yr oedd adeilad yr ochr arall i'r ffordd hefyd. Defnyddiwyd ef am gyfnod byr yn nechrau'r dau ddegau i ddangos darluniau byw gan Mr Toumavoh (dyn du) ond heb fawr o lewyrch gan fod y lle yn oer a llaith, a'r peiriant yn torri beunydd. Ond, wrth gwrs, yn y chwarel y gweithiai'r mwyafrif mawr o'r dynion.

Ceid amryw â'i fusnes bach ei hun os mai dyna'r ffordd orau i'w ddisgrifio, fel rhyw wraig o'r Cisl i weuai neu droedio hosana "dafedd carta" i'r chwarelwyr. Rhai llwyd i'r chwarel, a choch-ddu at y Sul. Gyda llaw "troedio sana" oedd torri'r hosan uwch ben y sawdl. Codi'r pwythau a gweu troed newydd iddi. Felly daliai am dymor arall. Coblyn o bethau am dorri twll yn y sawdl oedd "sgidia hoelion mawr" y chwarelwyr. Ar ôl i Johnie Teras gael ei barlysu yn y rhyfel, cafodd beiriant "gweu sana" a chafodd gefnogaeth llawer.

Dyna Mrs Jones Cweri wedyn (nain Nesta a Wili Ffowc) yn wniadwraig. Gwnâi ffrogiau newydd, neu altro rhai. Byddai'n brysur bob amser. Mrs Owen Bryn Sine fyddai'n startsio coleri, cyffs a ffrynt - gêr dydd Sul y dynion. Cymerai mam a nain Moi Cnocin olchi i mewn. Elai Mrs Hughes, Tŷ Newydd i dai pobl i olchi a phapuro.

Yn y dau ddegau daeth graenio

drws ffrynt y tai yn ffasiynol, ac nid oedd neb gwell na John Thomas (Jac Ciaptan). Cael gafael ynddo mewn hwyll gwaith oedd y gamp.

Saer trefnus oedd Mr Wm Williams Teras. Nid oedd neb gwell nag ef am seilio'r nenfwd, a'i staenio. Gwnâi ddrysau a phalis, neu wneud ffenestr wydr yn y drws.

Wmphra Saer, wrth gwrs, oedd y saer. Efo a wnâi eirch i bawb, heblaw'r gwaith cyffredin fel saer coed. Gwerthai byti a phaent a linseed oil yn ei siop. Ym Mhen yr Olchfa yr oedd "dyn tynnu llun". Mae'r enw wedi mynd yn angof, ond mae'r lluniau a dynnodd ohonom fel plant mor glir ag erioed.

Cymeriad anghofiadwy oedd Wm R. (Owen R. Jones). Yn ei dŷ y galwem am y Dinesydd ac oel lamp, ac efallai bacad o de. Ond yn bennaf oll efe oedd y 'Town Cryer'. Rhythais i'w wyneb lawer gwaith pan safai ar Bont Haeam a chanu ei gloch a gweiddi nerth esgyrn ei ben, a'i wyne yn coch, "Dalier sylw! Bydd ocsiwn lestri yng ngwaelod Batri am saith o'r gloch nos Wener," etc. Efo fyddai'n goleuo

lamp Bont Haeam hefyd. Byddai'r hogiau yn chwarae marblis yng ngolau'r lampau fin nos.

Dyna Robin Crydd wedyn yn trwsio esgidiau. Yr oedd yn byw mewn bwthyn tu ôl i'r siopau yn rhywle. Yn achlysurol deuai Twm Pennog o'r dre gyda llond casgan o benwaig yn gwingo. Deuai i lawr Gallt Ysgoldy gan weiddi "Penwaig ffresh, newydd ddod o'r môr." Cipiwm chwech gwyn a phlât i'w gwrdd yn Siop Gron. Saith pennog am chwech cheiniog. Yn nechrau Hydref deuai trol a cheffyl a'r dyn yn gweiddi "Fala filoedd, melys fel y mêl."

Dyna'r wagen oel lamp wedyn, a dau geffyl yn ei thynnu. Sypleio'r siopau oedd hon, wrth gwrs. Roedd un neu ddau yn gwerthu te hefyd, ond ni chofiaf pwy. Hefyd deuai trafaeliwr o siop Valance Bangor o amgylch y tai i gymryd "orders" am ddillad bechgyn, a thalu iddo wrth y mis. Wrth gwrs, byddai "dynion Insurance" yn galw fel y maent heddiw.

i barhau y mis nesaf.

MWY AM FELIN SAM A GALLT SAM

FELIN SAM A GALLT SAM:

Faint o blant Deiniolen a'r cylch ŵyr ystyr y ddau enw uchod a lle maen nhw? Wel Felin Sam yw'r adeiladau dros y ffordd i ffatri Clogwyn yng Nghlwt-y-bont a'r Allt sydd yn mynd heibio yw Gallt Sam a'r Sam yw talfyriad o enw perchennog y Felin, sef Samuel Jones. Melin beth oedd hi, meddech chi? Felin yn cynhyrchu llechi ysgrifennu a ddefnyddid yn yr ysgolion yn y cyfnod hwnnw cyn i'r papur ddod yn rhatach a mwy glanwaith fel a ddefnyddir heddiw.

Sylwer ar yr enw uwch ben y drws bach sydd yn arwain i'r tŷ - 'Glandinorwig', a dyna enw'r Eglwys, sylwch - Eglwys Llandinorwig. Beth yw'r cysylltiad? Os gŵyr rhywun o ddarlennwyr yr *Eco* unrhyw beth am hanes y Felin hon a rhai eraill megis yr un a ddefnyddir gan y Band (Llofft Felin), anfonwch air. Bydd y darlennwyr yn hynod ddolchgar am bob gwybodaeth, felly, haneswyr dewch yn rhydd. Deëllir fod gwaith ymchwil wedi ei gychwyn i hanes yr hen felinau hyn.

NANT PERIS

GWAELEDD: Balch ydym o gael croesawu Mr T.J. Roberts, Llys Awel gartref ar ôl ysbaid yn ysbyty Bryn Seiont. Gobeithio y bydd yn teimlo'n well yn fuan. Hefyd dymunir adferiad buan i Mrs A. Lloyd Roberts, Dol-Eilian sydd yn yr ysbyty a Mr John Morgan, Gwastadnant sydd yn aros hefo Glyn y mab yn Croesoswallt.

PROFEDIGAETH: Cydymdeimlir â Mrs Myfanwy Thomas, Bronwylfa a'r teulu yn y brofedigaeth o golli merch yng nghyfraith Mrs Siân Thomas, Llanberis.

LLONGYFARCHIADAU: i Mrs Ann Jones, 2 Nant-ffynnon ar fod yn nain eto. Ganwyd mab i Mr a Mrs Morris, Maes-yr-haul, Bethel yn ddiweddar.

TE PARTI: Cynhaliwyd te parti yn y

Festri i ddiweddu'r Gobeithlu. Cafodd y plant wledd wrth eu bodd. Gyda'r nos cafwyd sosial a chyngerdd i groesau'r gweinidog a'i briod, y Parchedig Trefor Lewis a Mrs Lewis a'r bechgyn i'n plith. Fel arfer cawsom wledd yn y cyngerdd gyda'r plant ar eu gorau.

Llongyferchir Helen Mai a Sharon ar eu llwyddiant yn Eisteddfod yr Urdd yn Ysgol Brynrefail, Llanrug.

LLONGYFARCHIADAU: i David Elis, Hafan am ennill medal arian campau judo yn Sir Fôn.

CYDYMDEIMLAD: Cydymdeimlir â Mr a Mrs Melvyn Pritchard, Llys Awel yn y brofedigaeth o golli chwaer yng nghyfraith yn Walsall.



**BECWS
DEINIOLLEN**
(D.E. & R.P. JONES)

Ffôn: LLANBERIS 870232

BARA FFRES A THEISENNAU BLASUS

Hefyd gwerthwyr CALOR GAS



STRYD FAWR, DEINIOLLEN Ffôn Llanberis 871210

Creffttau llechi: arlunwaith, claciau, calendrau, raciau llythyrau ac ati. Hefyd **creffttau lleol eraill:** crochenwaith, gwaith coed, blodau addurnol. **Arddangosfa o hen luniau chwarel.**

Ar agor 9.30 am - 9.30 pm

Galwch i weld Gwil wrth ei waith ym Mharc Padarn, Llanberis

TAN-Y-COED

Gohebydd: Miss Megan Humphreys, 4 Tai Tan-y-coed (Llanberis 870030)

DYDD GWEDDI BYD-EANG: Fe'i cynhaliwyd ddydd Gwener, Mawrth 2. Yng nghapel Tan-y-coed y cynhaliwyd Cyfarfod Gweddi Cylch Llanrug y tro hwn, a daeth cynulliad da ynghyd er gwaethaf gerwindeb y tywydd - diolch i berchenogion ceir gariodd gyfeillion i'r gwasanaeth.

Arweinydd y gwasanaeth oedd Mrs Nansi Roberts, Manod a thraddodwyd yr anerchiad gan Mrs Gillian Morris, cynrychiolwyr o wahanol eglwysi'r cylch gymerodd ran yn y gwasanaeth hefyd. Y cyfeilydd oedd Mrs Enid Whiteside Thomas.

Y chwiorydd a gynrychiolai eglwys Tan-y-coed oedd Mrs Lola Butler, Mrs Catherine V. Jones, Mrs Meira Pritchard a Mrs Megan Williams.

Nos Fercher, Mawrth 7 cynhaliwyd Seiat dan nawdd y Cyngor Efengylaidd yng Nghapel Tan-y-coed - Mrs Mary Lloyd Williams yn llywyddu yn absenoldeb y Parch Eryl Blainey.

Cymerwyd y gwasanaeth agoriadol gan Mr D. Glynne Owen. Testun y Seiat oedd 'Y

Weinidogaeth Iachau' a'r agorwr oedd y Parch W.O. Roberts. Cymerwyd rhan ymhellach gan y Parch John Morris. Y cyfeilydd oedd Mrs Megan Williams, Bron Eryri. LLONGYFARCHIADAU i Bethan Lewis Parry a Manon Llwyd Evans, y ddwy yn aelodau o'r Côr Adrodd dan 15 oed o Ysgol Brynrefail fydd yn cystadlu yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yr Wyddgrug.

Hefyd i Annwen Parry a Ffion Williams, aelodau o Barti'r Ddawns Greadigol dan 12 oed - hwythau i gystadlu ymhellach yn yr Wyddgrug, y ddwy hefyd yn aelodau o Barti Cerdd Dant dan 12, fydd yn cystadlu ymhellach ym Mangor yn Eisteddfod y Sir.

Y mae Annwen at hynny yn aelod o Barti Recorder sydd yn mynd ymlaen i gystadlu i Eisteddfod y Sir. Cafodd y wobwr gyntaf yn Eisteddfod y Cylch am wau.

Ffion enillodd y wobwr gyntaf yn Eisteddfod y Cylch dan 12 oed am ganu Cerdd Dant, Alaw Werin ac Unawd. Bydd yn cystadlu yn y dair adran yma yn Eisteddfod y Sir ym Mangor Mawrth 24.

Llwyddiant pellach i Bethan Manon, Annwen a Ffion.

DINORWIG

Gohebydd: O.R. Williams, 2 Bro Elidir (Llanberis 870671)

DYDD GWEDDI BYD-EANG Y CHWIORYDD:

Dydd Gwener, Mawrth 2, cynhaliwyd y cyfarfod yng nghapel Dinorwig M.C. Arweiniwyd y cyfarfod gan Mrs Katie L. Hughes, 2 Maes Eilian. Cafwyd anerchiad ar y thema 'Dyfroedd Byw gan Grist ein Gobaith'. gan Mrs Betty Peris Roberts, 11 Maes Eilian. Cymerwyd rhannau eraill gan y chwiorydd canlynol, Mrs Katie Griffith, Arwelfa; Mrs Annie Roberts, 3 Maes Eilian; Mrs Alice Griffith, Tan-y-Bwlch; Mrs Medwen Griffith, Foel Cottage; Miss Ellen Wynne Jones, Ty'n Fawnog; Mrs Lorna Lewis, Deiniolen; Mrs Elizabeth Jones, Foelgron; Mrs Betty Jones, 7 Maes Eilian; Mrs Nellie Williams, 2 Bro Elidir; Miss Elizabeth Thomas, Lliardiad y Clo; gwnaed casgliad o £6 at y gronfa.

Nos Iau, Mawrth 8 yn y Ganolfan cafwyd noson o 'Cawl a Chan' gyda pharti Mrs Linda Jones, Llanrug, yn gwasanaethu mewn eitemau o ganu, adrodd, sgets a dawns gan aelodau'r côr. Llywydd y noson a gyflwynodd y parti i'r aelodau oedd Mrs Betty Peris Roberts, Maes Eilian. Talwyd diolch i'r parti ac i'r chwiorydd am drefnu'r noson gan Mr Hugh Williams, Paradwys, Môn. Dyma gyfarfod olaf

y tymor. Trefnwyd pwyllgor ar gyfer y tymor nesaf.

Dyma'r pwyllgor a'r swyddogion: Llywyddion Anrhydeddus: Y Parch Aled L. Edwards ac Ifor L. Williams. Cadeirydd: Mrs Betty Peris Roberts, 11 Maes Eilian; Trysorydd: Miss Marian Jones, 7 Bro Elidir; Ysgrifennydd: Miss Olwen Bryn Roberts, Ty'r Ysgol. Y pwyllgor: Mrs Hugh Thomas, 1 Bro Elidir, Mrs Alice Griffith, Tan-y-bwlch; Miss Ellen Wynne Jones, Ty Fawnog; Mrs Irene Morris, 4 Maes Eilian; Mr & Mrs Hugh Williams, Paradwys, Môn; Mrs David J. Thomas, Ty Capel Sardis.

Chwefror 24, yn y Ganolfan cafwyd perfformiad o'r ddrama 'Pedwarawd mewn B. Fflat' gan gwmni drama Llanberis. Talwyd diolch i'r parti gan Mr Hugh Thomas, 1 Bro Elidir.

PRIODAS ARIAN: Dydd Mercher, Mawrth 28 bydd Mr a Mrs John Peris Roberts, 11 Maes Eilian, yn datlu eu priodas Arian. Llongyfarchiadau calonnog iddynt ar y dathliad a phob hwy i'r dyfodol.

GWELLA: Da deall fod Mr a Mrs Alun Phillips, 6 Maes Eilian yn gwella wedi eu hariosiad yn yr ysbytai. Parhaed i wella.

Anfonwn ein cofion at y rhai sy'n cwyno yn eu cartref, gan ddymuno gwellhad buan iddynt.

CWM-Y-GLO

Gohebydd: Mrs Iris Rowlands, Glanrafon (872275)

LLONGYFARCHIADAU: i Mr Gwyrfa Jones, mab y diweddar Mr Hugh Jones a Mrs E. Jones, Seiont House ar ei ddychafiad yn Arolygydd gyda'r Heddlu. Mae Gwyrfa a'i deulu'n byw yn Ninbych a bydd yn dechrau yn ei swydd newydd yn yr Wyddgrug ym mis Ebrill.

ADREF O'R YSBYTY: Da iawn yw deall fod Elen, merch fach Mr a Mrs Ifor Roberts, Awelon yn gwella ar ôl triniaeth yn yr ysbyty.

'Rydym yn falch o glywed fod Siân Hughes, 2 Bryn Gro wedi dychwelyd o'r ysbyty ar ôl triniaeth ac yn gwella'n foddhaol.

MARWOLAETH: Brawychwyd yr ardalwyr gan farwolaeth Mrs Joan Pritchard yn 43 oed. Brodor o'r Cwm oedd, yna aeth gyda'i phriod i fyw i Walsall. Cydymdeimlir â'i phriod Selwyn a'i mab Ian, ei rhieni yng nghyfraith Mr a Mrs D. Pritchard, 23 Dôl Afon a'r teulu oll yn eu profedigaeth.

CYDYMDEIMLAD: Estynnir y cydymdeimlad dwysaf â Mr Sam Jones, Bron Eryri, yn ei brofedigaeth o golli ei fam Mrs Ellen Jones, ym Mhlas Ogwen, Bethesda.

Y CARNIFAL: Cynhelir y carnifal ddydd Sadwrn, Gorffennaf 7. Ceir mwy o fanylion yn nes ymlaen.

DIOLCH: Dymuna Siân, 2 Bryn Gro ddiolch i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniodd tra'n ysbyty Môn ac Arfon, Bangor. Diolch yn fawr.

CLWB POBOL Y CWM: Y gŵr gwadd yng nghyfarfod o'r Clwb Chwefror 16 oedd Mrs Frank Rees Jones o Gaernarfon. Adnabyddir ef fel cyn-brifathro sydd wedi ymddeol ac a gymer gymaint o ddiddordeb ym myd y môr. Cymer ran amlwg yng ngweithgareddau'r amgueddfa yng Nghaernarfon ac ef yw ysgrifennydd Ymddiriedolaeth Arforol Seiont II. Rhoddodd sgwrs ddiddorol ar y gwaith sydd yn gysylltiedig â'r amgueddfa, gyda sleidiau yn dangos taith arbennig mewn llong wedi ei addasu gogyfer yr anabl. Diolchwyd iddo gan Mr R.H. Parry. Rhoddwyd y te gan Mrs K. Watkin a Mrs R. Parry a'r raffl gan Miss E. Davies. Enillwyd y raffl gan Mr R. Roberts. Oherwydd i gyfarfod Gŵyl Dewi gael ei ohirio i'r cyfarfod dilynol, cafwyd 'Bingo' ar Fawrth 1 gyda Mrs E. Price, New Street yn galw. Rhoddwyd y te gan Mrs Roberts, Bryn Gro a Mrs Williams, Pantafon, a'r raffl gan Mrs R. Parry. Enillwyd y raffl gan Mrs Williams, Pantafon a gwnaed y diolchiadau gan Mr R. Roberts.

CLWB Y GRAIG: Cynhaliwyd Eisteddfod Clwb y Graig Mawrth 16 yn y Ganolfan gyda phentrefi Cwm-y-glo a Brynrefail yn cystadlu. Llywydd y noson oedd Mr H. Arfon Jones, Porthaethwy a'r beirniaid oedd - Cerdd: Mrs Ann Pritchard, Llanberis; Adrodd a Llên: Mr John Ll. Hughes, Llanberis; Arlunio: Mr Leslie Jones, Penisarwaun; Gwnio a Choginio: Mrs Nerys Jones, Llanrug. Cyfeilydd: Miss Lowri Roberts, Arweinydd: Mr Ll. Hughes. Enillwyd Cwpan Mrs Eryl Roberts am unawd ar y piano dan 12 oed gan Catrin Gwyn, Cwm-y-glo. Caron Jones, Brynrefail enillodd Gwpan Mrs Watkins am unawd ar y piano dan 16 oed. Parti Einir enillodd Gwpan Clwb y Mamau, Brynrefail a Chôr Cymysg Brynrefail enillodd Gwpan Clwb Ieuencitd.

ADRODD: Dan 4 oed: Glyn a Jessica. 4-6: 1. Tony, 2. Donna, 3. Darren. 6-8: 1. Nicola, 2. Darren, 3. Debbie a Terry. 8-10: 1. Carys, 2. Owain. 10-12: 1. Catrin, 2. Dawn, 3. Caren a Rhian. Dan 16: Alison. 1. Parti Cydadrodd Alison. Brawddegau a Storiâu: Dan 10 oed: 1. Debbie, 2. Sharon, 3. Carys, Nicola, William. Dan 12: 1. Catrin, 2. Nia, 3. Maria Evans. Eto dan 16 oed: 1. Einir Gwyn, 2. Alison, 3. Karen Ffoulkes. Brawddeg yn cynnwys y llythrennau 'Blwyddyn Naid': 1. Mr Llew Hughes. Parodi: 1. Mr R.H. Parry. Llinell Goll: 1. Mr E.T. Jones.

CERDD: Dan 4 oed: Glyn a Jessica. 4-6 oed: 1. Darren, 2. Bryn a Lola, 3. Donna a David. 6-8 oed: 1. Debbie, 2. Nicola a Gareth Price. 3. Dafydd a Darren. 8-10: 1. Carys, 2. Owain, 3. John. 10-12: 1. Catrin, 2. Rodney, 3. Nia. Dan 16: 1. Alwen, 2. Einir. Unawd Offerynnol: 1. Nia a Paula, Maria, Eira, Ronna.

ARLUNIO: Dan 5: 1. Lola, 2. Tony, 3. Gwenan. Dan 7: 1. Darren, 2. Bryn, 3. Gareth Davies. Dan 9: 1. Sharon, 2. Emma, 3. Nicola. Dan 12: 1. Maria, 2. Nia a Paula. 3. Caren a Rhian. Dan 16: 1. Myfanwy, 2. Glenda, 3. "Miss Mostyn" a "Herman Munster".

GWNIŌ A CHOGINIO: Gwau Siwmpwr i blentyn: 1. Mrs Pat Jones, Brynrefail, 2. Mrs Mary Roberts, Cwm-y-glo, 3. Mrs Margaret S. Williams. Gorchudd Clustog: 1. Mrs Pat Jones, 2. a 3. Mrs M. Jones, Llanberis. Tegan Meddal: 1. Sandra Williams, 2. Mrs Pat Jones, 3. Mrs M. Lennon. Cacennau Ffansi: 1. Sandra Williams, 2. Einir Gwyn, 3. Catrin Gwyn. Taffi Triog: 1. 1. Mrs Marjorie Roberts, 2. Nicola, 3. Mrs Owen, Llanberis.

Dymuna Pwyllgor Clwb y Graig ddiolch i roddwyr y cwpanau a phawb a fu'n gyfrifol am wneud yr eisteddfod mor llwyddiannus.

CEFNOGWCH EIN
HYSBYSEBWYR



I DRWSIO'R
TELEDU
NEU'R
RADIO
FFONIWCH...

**Osmond
W. Shaw**
DEINIOLEN

Ffôn:
LLANBERIS 870545
Gwasanaeth 'run diwrnod
os ffoniwch cyn 10 o'r
gloch y bore

**Wavell
Roberts**
CIGYDD

LONDON HOUSE
LLANRUG
Ffôn: Caernarfon 3574
PEN CIGYDD Y FRO!

Yr ŵyn lleol mwyaf
blasus
Selsig cartref, cigoedd
parod i'w bwyta
Archebion ar gyfer
y rhewgist
MYNNWCH Y GORAU
A DEWCH ATOM NI!

EISIAU CLIRIO'R TY?
Am gael gwared â hen
ddodrefn, celfi ac ati?
Os am werthu neu
brynu cysylltwch
gyntaf â

BRIC A BRAC
(David a Dilys Evans)
Ffordd yr Orsaf
Ffôn Caernarfon
76685

YN ARDAL ECO'R
WYDDFA,
AR GARREG EICH DRWS

AM FFENESTRI
DRYSAU
GRISIAU

neu unrhyw fath
o gynnyrch coed
ffoniwch

BRYN
LLANBERIS 870793

B & K WILLIAMS
TANRALLT
CWM-Y-GLO

DEINIOLLEN

GOHEBYDD: W.O. Williams, Tŷ Capel Disgwylfa (Llanberis 871259)

SEFYDLIAD Y MERCHED: Cynhaliwyd Swper Gŵyl Ddewi a Chyngerdd yn Neuadd yr Ysgol ar Fawrth 5ed. Croesawyd aelodau Clwb Elidir i'r swper. Cawsom noson ddifur iawn yng nghwmni parti Lleisiau'r Gweinydd o dan arweiniad Mrs Einir Wyn Williams, Rhiwlas. Croesawyd y parti gan Mrs Rita Parry Jones, llywydd y Sefydliad. Y cyfeillydd oedd Mrs Einir Wyn Williams. Arweinydd y noson oedd Mrs Nancy Edwina Jones, Penisarwaun. Cawsom raglen amrywiol yn cynnwys deuawd, unawd ac adroddiad, dwy sgats a deialog. Mwynhawyd y noson yn fawr iawn gan yr aelodau. Llwyddodd y rhan fwyaf ohonynt i ennill gwobrau raffl hefyd.

Diolchwyd i'r parti ar ran Clwb Elidir gan Mrs Marren a Mrs Megan Morris. Diolchwyd hefyd i Mr Ieuan Williams am roi benthyg ei fws mini i gludo'r oedolion. Bydd y cyfarfod nesaf ar nos Lun, Ebrill 2. Disgwylir Mr W.W. Griffith, Bethel i sôn am 'Henebau'.

Bydd 'Noson Wau' hefyd ar nos lau, Mawrth 29 yn y Ganolfan.

CYFARFOD GWEDDI BYD-EANG Y CHWIORYDD:

Nos Wener, Mawrth 2 cynhaliwyd Cyfarfod Gweddi Byd-eang y Chwiorydd yn festri Ebeneser. Yr arweinydd oedd Mrs Eirlys Williams, Tabernacl. Y thema oedd 'Dyfroedd Byw gan Grist'. Cafwyd myfyrdod ar y thema gan Mrs Beryl Griffith, Llandinorwig. Cymerwyd rhan yn y gwasanaeth gan chwiorydd Libanus, Disgwylfa, Tabernacl, Ebeneser, Llandinorwig a Chefn-y-waen. Cyfeiliwyd gan Miss Mair R. Jones, Libanus.

LLONGYFARCHIADAU i Graham Williams ar ennill y wobr gyntaf yn Eisteddfod Cylch yr Urdd yn yr adran offerynnau pres dan 15 oed. Hefyd Dylan Williams, 1 Pentre Helen am ennill yr ail wobr dan 12 oed.

Ar Ebrill 20 bydd y Seindorf yn cystadlu yng nghystadleuaeth Pontins yn Southport dan arweiniad eu hyfforddwr proffesiynol, Mr J.R. Chils, Efrog.

Enillwyr Clwb 200 mis Mawrth — £25: Mr T.A. Parry, Bro Dawel; 2. £15: Mr Wyn Hughes, Tŷ-n-y-weiglodd; 3. £5: Mr Ieuan Morris, 8 Tai Gwledfa.

NOSON GOFFI: Cynhelir Noson Goffi yn y Ganolfan nos lau Ebrill 12 — yr elw at y Seindorf.

DIOLCH: Dymuna Miss Glenda Parry, 13 Pentre Helen ddiolch o galon i bawb am yr anrhegion a llu cardiau a dderbyniodd ar ddathlu ei phen-blwydd yn un ar hugain oed ar

Chwefror 24.

Dymuna Mair Rees Jones, Tan y Caerau, Clwt-y-bont ddiolch o galon i'w theulu a ffrindiau am eu caredigrwydd, am y cardiau, anrhegion a'r galwadau ffôn a dderbyniodd tra yn Ysbyty Dewi Sant, Bangor.

Diolch yn arbennig i'r Parch Ifor Williams, y meddygon, a'r gweinyddesau yn Ward Gwynedd am eu gofal.

DYMUNIADAU GORAU: i Abram ac Elizabeth Jones, Foel Gron, Dinorwig ar ddathlu eu priodas arian, ar Fawrth 21. Pob dymuniad da i chwi eich dau eto i'r dyfodol.

Oddi wrth Uncle Tomie a Kathleen, Prenteg, Deiniolen.

ER COF AM Y DIWEDDAR JOHN DAVID EDWARDS:

a fu'n organydd Eglwys Crist Llandinorwig dros gyfnod o hanner canrif.

Fe roes ei dalent ar allorau'r nef, Mewn urddas wrth hen organ fawr y llan,

A hir y cofier ei ymroddiad ef, Yn cynnal achos Crist dros gyfnod gwan:

Dros hanner canrif rhoes i ni yn rhad Oluedoedd emyn, salm, a'r ddwyfrol gân,

O Sul i Sul bu'n canmol Duw y Tad Ei gariad mawr a'r hoff breuylfa dân: Ar derfyn lludded dydd ar graig ei fro, Chwarelwr diwylliedig fel ei dras, Mor chwith yw hebrwng John i wely'r gro

Dan glwyfau blin effeithiau'r lechen las.

Distawodd nodau mwyn yr organ fawr

Mewn parch i un fu'n llonni plant y llawr.

JOHN DAVID EVANS (Joni Iard)

Maes y Dref, Clwt-y-bont, Deiniolen

DIOLCH: Dymuna Myfanwy a Willie Hughes, 7 Tai Caradog ddiolch i ffrindiau a chymdogion am y llu cardiau, anrhegion a dymuniadau da a dderbyniasant ar achlysur dathlu eu priodas aur yn ddiweddar.

Roedd yr uchod wedi ei gyflwyno i mi mewn da bryd ar gyfer y rhifyn diwethaf o'r 'Eco'. Ni chyhoeddwyd yr eitem oherwydd esgeulustod llwyr ar fy rhan i ac ymddiheuraf am hynny.

EGLWYSI UNEDIG DEINIOLLEN: (Cefn-y-waun, Disgwylfa, Ebeneser). Am y tro cyntaf erioed bu aelodau'r tair eglwys yn cyd-addoli am fis cyfan. Cynhaliwyd yr oedfaon yn y tri chapel yn eu tro, Cefn-y-waun, Ebeneser, Disgwylfa ac Ebeneser. Hyfryd oedd gweld plant, pobl ifanc



Dyma Julie Ann Griffiths, brenhines Carnifal Deiniolen gyda'i gosgordd Gwawr Pierce Williams, Sara Ann Wood, Donna Marie Taylor, Melanie Owen (roedd Ann Marie Williams yn absennol pan dynnwyd y llun). Dewiswyd y frenhines mewn noson goffi a drefnwyd gan Mary Wyn Jones ac er garwed y tywydd roedd dros gant o bobl yn bresennol. Diolchwyd gan Alun Wyn Evans.

ac oedolion y tri chapel gyda'i gilydd.

Diolchir i bawb a gefnogodd yr oedfaon, ac hefyd i'r rhai a gymerodd ran yn yr oedfaon teuluaid. Yn oedfa'r bore Chwefror 26 cafwyd cwmni aelodau Guides a Brownies Deiniolen.

Bydd yr eglwys yn dod at ei gilydd eto yng Nghewn-y-waun ar Mehefin 24, Gorffennaf 15 a Hydref 28.

DŴR: neu ddiffyg dŵr sydd wedi symbylu pobl ifanc Eglwys Unedig Deiniolen (Cefn-y-waun, Disgwylfa ac Ebeneser) i drefnu gweithgareddau.

Bu i nifer drefnu awr dawel gyda phob un ohonynt yn cael ei nodd. Yr oedd hyn mewn ateb i gais Urdd Gobaith Cymru am gymorth i sicrhau ffynhonnau yn y Swdan. Mewn canlyniad i'w hymdrech codwyd £75. Y mae naw o ferched ifanc wedi gosod nod o £500 tuag at gael pibelli dŵr mewn ardal yn Bangladesh. Ar Chwefror 28 trefnodd y merched noson o gawl, cân a ffilm yn Festri

Ebeneser. Codwyd £57, ac at hynny derbyniwyd rhodd di-enw o £20. Felly y maent wedi sicrhau un bibell ddŵr a hanner ffordd tuag at un arall. Y merched ifanc yw: Eleri Owen, Eiriona Owen, Delyth Fôn Williams, Wendy Jones, Yvonne Jones, Einir Lewis, Helen Mair Jones, Cheryl Parry a Bridget Hughes.

CYNGOR EGLWYSI: Yn dilyn llywyddiant yr oedfaon gynhaliwyd y llynedd yn ystod yr 'Wythnos Fawr' i ddathlu'r Pasg, mae'r Cyngor wedi trefnu oedfaon fel â ganlyn am eleni: 17 Ebrill, 7.00 yn Festri Ebeneser, Pasiant, 'Beth yw eich barn chwi am y Meseia?'

19 Ebrill, 7.00, yng Nghapel Disgwylfa, Gweinyddir y Cymun Sanctaidd.

20 Ebrill, 3.00, yn Eglwys Llandinorwig, Gwasanaeth y Groglith.

Gofynnir i bawb ymgynnull yng Nghapel Disgwylfa erbyn 1.45 p.m. ar gyfer gorymdeithio oddi yno trwy Pentre Helen a'r Stryd Fawr i Landinorwig a phwysir am gefnogaeth arbennig i'r orymdaith.

LLONGYFARCHIADAU: i Ieuan Wyn Williams, 6 Pentre Helen ar ei ddyweddïad gydag Ann Roberts, Llithfaen, Pwllheli.

ATGOFION AM Y CLEGIR

Annwyl Syr,

Pleser digymysg, pob mis yw derbyn Eco'r Wyddfa a chyn dechrau darllen o ddirfi, rhaid rhoi cip trwy'r tudalennau i weld a oes llun o rhywun neu rhywle cyfarwydd.

Dychmygwch y wefr drydanol a gefais o droi i dudalen 16 o rifyn Mawrth 1984, a gweld llun dau dy a fu'n gartrefi i mi rhwng 1928 a 1939 — Tŷ Newydd a Tŷ Capel y Clegir. Lled cae oedd rhwng y ddau dy — ffrynt Tŷ Capel yn wynebu cefn Tŷ Newydd (fel y maent yn yr Eco).

Wrth "Agor Ffiniau'r Gorffennol" agorodd Mrs Mary Lloyd Williams llifddorau'r cof i ni fel teulu.

Diddorol oedd gweld llun William Lloyd, taid Mrs Williams, a fu'n byw yn Tŷ Newydd dros chwarter canrif o'n blaenau ni.

Dim ond Gwyndaf, yr ieuengaf o'n teulu all adrodd englyn Glan Rhyddallt a honni fod Clegir yn "fro ei eni". Ond gall Wilbert, Oliver a minnau haeru fod ein gwreiddiau yn ddwfn ymysg grug a chlogwyni y "fro lle'n magwyd".

Gwn mai dyna brofiad eraill a gyd-oesai â ni yno. Cymdeithas glos ydoedd, a phery'r cwlwm yn dynn o hyd, er i ni wasgaru i bedwar ban byd.

Y capel oedd ein man cyfarfod — mangre gysygreddig yn wir ystyr y gair.

O'r llestri cymun a welodd Mrs Williams yn y Llygrgell Genedlaethol y derbynias fy nghymun cyntaf o law y diweddar Barch Bryn Williams, Capel Coch gynt a ddaeth yn ddiweddarach yn Archdderwydd Cymru.

Braint oedd cael tyfu i fyny yn y Clegir. Carwn ddiolch yn fawr iawn i Mrs Mary Lloyd Williams, B.E.M. am rannu hefo ni, ddarllenwyr yr Eco, y stôr o ffeithiau ac atgofion diddorol sydd yn ei meddiant.

Annie May Williams, Llys Arfon, Brynrefail.

YMGYRCH EPILEPSI CYMRU

Trefnwyd Cynhadledd gan Bwyllgor Llywio ar gyfer Mai 30 yn Llandrindod. Bwriedir galw cynrychiolwyr o'r Mudiadau Gwirfoddol, Gwasanaethau Cymdeithasol, Awdurdodau Iechyd Lleol ac unigolion gyda diddordeb mewn problemau epilepsi.

Anerchir y Gynhadledd gan yr Athro Alan Richens, PhD., FRCP., Ysgol Feddygaeth Genedlaethol Cymru, Ysbyty'r Brifysgol, Caerdydd. Pwrpas y gynhadledd fydd trafod anghenion pobl sydd yn dioddef o epilepsi.

Ceir manylion pellach gan yr Ysgrifennydd (dros dro) Mr Arthur Wynne Hughes, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, 57A Heol y Brenin, Wrecsam.

Ffôn: Wrecsam 261245 neu

Miss D.E. Jones, Tan-y-graig, ger Hill Street, Porthaethwy, Môn.

DEINIOLLEN

C Gwasanaeth 24 awr —
A unrhyw bellter
B Eich rhedeg i'r Maes
S Awyr neu'r Porthladd
Bws Mini 12 Sedd

Ffôn: Llanberis
871591

J.M. WILLIAMS, 12 TAI FAENOL

BETHEL

Gohebydd - Geraint Elis, Cilgeran (Portdinorwig 670726)

MAM A'I PHLENTYN: Casglwyd £65 yn ystod y bore coffi llwyddiannus iawn a gynhaliwyd ar Chwefror 29 yn y Neuadd Goffa. Diolch i bawb am eu cefnogaeth.

CLWB Y MAMAU: Cyfarfod diwethaf 22 o Chwefror gyda Mrs A. Hughes o Glynllifon noson ddiddorol iawn yn ei chwmni, coginio gyda 'Pressure Cooker' oedd y pwnc. Fe gynhaliwyd y cyfarfod nesaf yn yr ysgol Mawrth 28 yng nghwmni Mr W. Parry Williams Ysgol Treborth.

Fe fu rhai o'r aelodau o gwmpas y pentre yn casglu at Dr Barnardo ac fe gasglwyd £50.98. Diolch i bawb am eu cyfraniad.

CARNIFAL 1984: Er mai siomedig fu'r ymateb i'r Cyfarfod Cyhoeddus a alwyd ar Chwefror 6, penderfynwyd cynnal Carnifal eto eleni, ac etholwyd y Swyddogion canlynol: Cadeirydd: Mr Geraint Elis, Cilgeran, Ysgrifennydd: Mrs Nan Owen, Berwyn, Trysorydd: Mr Ieuan Williams, Llain yr Ardd.

Cynhaliwyd noson goffi llwyddiannus yn y Neuadd nos Wener, Mawrth 16 ac fe ddewiswyd Gail Warrington, Wern Bach yn Frenhines y Carnifal. Jennifer Jones, Bro Rhos yw'r Lord Chamberlain a Sharon Pritchard, Bro Rhos y Lady in Waiting.

Enillwyr y raffl oedd - Bocs o ffrwythau: (rhoddedig gan Mrs Helen Roberts): Lyn Roberts, Tan y Buarth; Bocs Nwyddau (rhoddedig gan Mrs Phyllis Owen): Mrs Rita Williams, 4 Tan y Cae.

Hoffai'r pwyllgor ddiolch i bawb am eu cefnogaeth i sicrhau llwyddiant y noson.

Bydd yr wythnos carnifal yn dechrau gyda chymrafa nos Sul, Gorffennaf 8 gyda'r carnifal ei hun ddydd Sadwrn Gorffennaf 14.

MERCHED Y WAWR: Nos Fercher, Mawrth 14 daeth nifer dda o'r aelodau ynghyd i'r Ysgol Gynradd i ddathlu Gŵyl Ddewi.

Croesawyd pawb gan y llywydd, Ann Hopcyn, yn arbennig gwraig wadd y noson, sef Mrs Eira Lewis Roberts.

Mwynhawyd pryd blasus a baratowyd gan y pwyllgor, ac yna pleser mawr oedd treulio gweddill y noson yn gwrando ar un a gyfrannodd mor helaeth tuag at lenyddiaeth Gymraeg. Siaradodd Mrs Eira Lewis Roberts am ei gwaith fel athrawes, gan roi cipolwg i ni ar yr hyn â'i hysgogodd i ysgrifennu rhai o'i llyfrau, megis 'Mis o Fehefin', 'Siwgr a Sbeis', 'Byd o Amser' a 'Merch yr Oriau Mawr'.

Diolchodd Mrs Anne Elis i Mrs Roberts am sgwrs mor fywiog a diddorol, a diolchodd hefyd i'r pwyllgor am ddarparu'r lluniaueth ar gyfer y noson.

Mrs Nia Roberts oedd enillydd y raffl.

DAWSWYR MORRIS: Oherwydd diffyg diddordeb ni fydd Dawswyr Morris yn y pentref eleni.

Ar ôl pum mlynedd llwyddiannus, trueni yw gweld mudiad fel hwn yn gorffen ond oherwydd difaterwch y pentref yn gyfan, dymunai'r trefnydd, Mrs Nan Owen, Berwyn

bwysleisio ei bod hi a Mrs Gwenda Jones wedi gwneud pob ymdrech posib i gario ymlaen eleni, ond heb gefnogaeth mae'n amhosibl gwneud hynny.

EISTEDDFOD YR URDD: Wedi wythnosau o ymarfer caled daeth tymor Eisteddfodau'r Urdd eto eleni. Cynhaliwyd yr Eisteddfod Cylch yn Ysgol Brynrefail ar Fawrth 10. Gwnaeth y plant yn arbennig o dda trwy ddod yn ail yn y gân actol a'r parti cerdd dant, y ddau wedi eu dysgu gan Ann Hopcyn. Daeth y côr adran bentre yn gyntaf, fe'i hyfforddwyd gan Mrs Glenys Griffiths, Llwyn Eithin. Yn yr Eisteddfod i blant dosbarth 1,2,3 ysgolion uwchradd daeth dau barti, cydadrodd a cherdd dant, a hyfforddwyd gan Mrs Rita Williams yn fuddugol. Bu'r plant hyn yn Llanrwst Sadwrn Mawrth 17 a chawsant ddau ail yn eu cystadleuaeth. Daeth Meinir Williams yn ail yn y gystadleuaeth piano. Rhian Hughes 3ydd am waith llaw a dwy wobr i Non Jones. Llongyfarchiadau iddynt i gyd.

DIOLCH: Mae Mrs Lynwen Morris wedi rhoi'r gorau i werthu'r Eco yng nghylch stâd Y Rhos gan eu bod fel teulu yn symud i fyw i Lys Myfyr dros dro. Diolchwn i Lynwen am ei chyfraniad a'i gwaith dros y blynyddoedd a hefyd i Mrs June Owen, Cadnant am gymryd y gwaith drosodd.

SUL YR IEUANC: Roedd y gwasanaethau yn y Cysegr ddydd Sul Mawrth 18 dan ofal plant yr Ysgol Sul. Yn y bore cymerwyd rhan gan ddosbarthiadau Mrs Elizabeth Williams, Mrs Ceinwen Williams, Miss Myfanwy Jones, Mrs Nan Owen a Mrs Dianne Roberts.

Roedd gwasanaeth yr hwyr dan

ofal dosbarthiadau Mrs Nora Parry, Mr Goronwy Jones a Mr Geraint Elis. Cafwyd dwy eitem gan gôr adrodd a chôr cerdd dant a hyfforddwyd gan Mrs Rita Williams.

CYNGERDD Y NEUADD: Nos Wener, Ebrill 6 cynhelir cyngerdd yn y Neuadd. Cymerir rhan gan blant yr Urdd a phlant yr Ysgol. Bydd yr elw tuag at y Neuadd.

GŴYL GERDDOROL LERPWL: Dymunir pob llwyddiant i holl blant y pentref fydd yn canu'r piano a chanu yn yr ŵyl yn Lerpwl ddydd Llun, Ebrill 2. Mae'r plant i gyd yn ddisgyblion i Mrs Heulwen Williams, Cefn y Gwynt.

CLWB Y RHOS: Bu nifer o aelodau Clwb y Rhos am eu cinio blynyddol yng Nghastell Cidwm nos Sadwrn, Mawrth 24. Y gŵr gwadd oedd Mr Tom Jones, Llanberis, Swyddog Undeb.



Brenhines Carnifal Bethel a'i gosgordd.

EISTEDDFOD GENEDLAETHOL URDD GOBAITH CYMRU DYFFRYN OGWEN A'R CYLCH

YR OLWYN YN TROI AR GYFER STEDDFOD YR URDD 1986

Mae'r olwyn wedi dechrau troi o ddifrif ar gyfer Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn Nyffryn Ogwen a'r cylch. Cyhoeddodd Mr William Lloyd Davies, Bangor, Cadeirydd y Pwyllgor Gwaith mai'r Cyng. Dafydd Orwig, Bethesda, fydd Llywydd Anrhydeddus yr Ŵyl ac y byddai wyth o Is-lywyddion anrhydeddus sef Mr Griff Jones, Dr Tudur Jones a Mrs Eluned Bebb, Bangor, y Parch John Owen, Mrs Grace Williams a Mrs Gladys McCarter, Bethesda, Mr R. Edgar Jones, y Felinheli a Mr R. Davey Jones, Llanfairfechan.

Cyhoeddodd Mr Griff Charles Morris, Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid bod y Cyng. Neville Hughes, Bethesda, wedi cytuno i fod yn Drysorydd yr Ŵyl. Roedd y Pwyllgor wedi gosod nod lleol o £63,000 ac mae rhwydwaith o byllgorau apêl lleol yn cael eu sefydlu i ymgychu at y nod. Cynhelir pyramidau swper a choffi, ffeiriau sborion, carnifalau, sioeau ffasiwn, slimio nodedig, tripiâu trê, cerdded nodedig a llu mawr o wahanol weithgareddau codi arian ac eisoes mae ugeiniau o gefnogwyr yr Urdd wedi cyfodi symiau dros bedair blynedd a fydd yn denu swm sylweddol o ad-daliad treth incwm i goffrau'r Eisteddfod.

AWDURDODAU LLEOL

Gobeithir cael £30,000 at yr Ŵyl




gan awdurdodau lleol ac eisoes mae Cyngor Cymuned Bethesda wedi arwain y ffordd yn rhyfeddol o hael drwy addo £5,000 dros dair blynedd ac mae Cyngor Arfon wedi dilyn drwy addo £9,000 dros yr un cyfnod. Disgwylir symiau sylweddol gan Gyngor Dinas Bangor a Chyngor Sir Gwynedd er nad oes sôn am symiau pendant eto. Mae cynghorau eraill yn nalgylch yr Ŵyl wedi addo cyfrannu neu wedi cyfrannu symiau llai.

BERW O WEITHGAREDDAU

Mae'n amlwg y bydd pentrefi a chymunedau o Fangor i Fethesda ac o'r Felinheli i Lanfairfechan yn ferw o weithgareddau yn ystod y ddwy flynedd nesaf er mwyn sicrhau y bydd Steddfod Genedlaethol yr Urdd 1986 yn un i'w chofio.

BILL ac EILEEN GRIFFITHS



Antiques Ivy Cottage BETHEL

Ffôn:

Y FELINHELI 670556

PRYNWYR A GWERTHWYR HEN BETHAU

Telir prisiau da

Trafodir busnes yn gwbl breifat a chyfrinachol

PENISARWAUN

Gohebydd: Mrs Mary Davies, 9 Llys-y-gwynt (872329)

EGLWYS Y SANTES HELEN: Cydymdeimlwn fel eglwys â Gwenifer, Emlyn Wyn a Clifford Jones, 7 Bryntirion a'r teulu i gyd yn eu profedigaeth o golli eu tad yn ddiweddar, sef Mr Emlyn Jones.

UNDEB Y MAMAU: Cynhaliwyd cyfarfod cyffredinol blynyddol o Undeb y Mamau nos Lun Mawrth 5. Arweiniwyd yr aelodau mewn gwasanaeth gan y Ficer. Darllenodd Mrs O.C. Roberts, y drysoryddes, y fantolen ariannol a rhoddwyd agenda y flwyddyn gan yr ysgrifenyddes, Mrs M. Davies. Ailetholwyd y swyddogion i gyd am dymor arall. Rhoddwyd y te gan Mrs B. Mowll, Swyddog Cofrestru a Mrs M. Davies. Balch oeddym o weld Mrs O. Thomas, Tai Newyddion yn ein plith unwaith eto.

LLONGYFARCHWN: Mrs Betty Evans, Glyn Arthur am ei chyfraniad i'r rhaglen 'Ar Gof a Chadw' ar Radio Cymru ychydig wythnosau'n ôl. Roedd yn sgwrsio am yr amser pan oedd yn glanhau'r gratiau dur yn y Faenol. Edrychwn ymlaen at gael ei chlywed eto'n fuan, o bosibl yn sôn amdani'i hun wrth ei gwaith yng Nghastell Penrhyn.

Derbyniodd Docyn Llyfr am y cyfraniad difyrfa i'r rhaglen 'Codi'r Ffôn'.

LLONGYFARCHWN Mr a Mrs Trevor Rowlands, Bryn Howel ar enedigaeith mab iddynt ar Fawrth 12, brawd bach i Daniel a Benjamin.

Cafwyd cyfarfod o Glwb y Merched nos Fawrth Chwefror 28 a bu'n noson ddifyr iawn gyda Mr Bellis, Efail Newydd yn dangos sleidiau o'r ardal hon. Rhoddwyd y te gan Mrs A. Jones a Mrs M. Williams o'r Waun. Enillodd Mrs Elinor Jones y raffl.

Dymunwn wellhad buan i Mr Richard Williams, 20 Bryntirion sydd yn yr ysbyty ym Mangor.

Cydymdeimlwn â Mrs I. Jones, a'r teulu, 6 Tai Arthur yn eu profedigaeth o golli tad Mrs Jones yn y Waunfawr.

Hefyd fe gollodd Mrs Attack, Ortavia ei chwaer yn ddiweddar a chydymdeimlwn hefyd â theulu Meillionydd, hwythau wedi colli perthynas agos.

Mwynhaodd tim buddugol Ffug Eisteddfod Eco'r Wyddfa wled y Ngwesty'r Foelas Llanrug nos Iau, Mawrth 15. Balch oedd y tim o weld eu henwau ar darian Banc y Midland o'r diwedd, a diolchwyd o galon i Mrs P. Williams, 3 Llys y Gwynt - nid yn unig am fynd â'r darian i'w hysgythru ond hefyd am dalu hanner y gost. Penderfynodd y "Penffyliaid" rhoi'r gweddill.

CLWB YR HEULWEN: Cafwyd cyfarfod cyntaf y tymor ddydd Mawrth, Mawrth 30. Cyfarfod blynyddol oedd hwn ac fe ailetholwyd y swyddogion. Rhoddwyd y te gan Mrs A. Williams a Mrs J.M. Jones, y ddwy o Lys y Gwynt. Enillodd Mrs G. Lewis y raffl. Croesawyd Mrs N. Roberts, 12 Llys y Gwynt yn aelod newydd.

CAPEL Y BOZRA: Ddydd Sul, Mawrth 4 bedyddiwyd Siân Owen, merch fach Mr a Mrs Ifor Davies, Cilcoed Uchaf, Clynnog, wyres fach Mrs S. Williams, Cae Hywel. Y Parch Elfyn Blainey oedd yn gweinyddu.

CYDYMDEIMLWN â Mr E.W. Jones, 3 Bryntirion a Mrs J.M. Jones, 4 Llys y Gwynt yn eu profedigaeth o golli eu modryb yn Llanrug.

Dymunwn yn dda i Mrs N. Roberts, Vine Cottage gynt, yn ei chartref newydd yn 12 Llys y Gwynt.

DYDD GWEDDI'R CHWIORYDD: Dathlwyd Dydd Gweddi'r Chwiorydd eleni yng Nghapel Bosra, 18

Penisarwaun. Llywydd y cyfarfod oedd Mrs Elizabeth Jones, Bryntirion a Mrs Amranwen Lynch roddodd yr anerchiad.

Bu i nifer o'r chwiorydd yn yr ardal ymuno yn y gwasanaeth, sef Mrs M. Thomas, Bod Awen; Mrs Percy Williams; Mrs Pat Larsen; Mrs Eirlys Jones; Mrs Eluned Porter; Mrs Eluned Jones, Cae Corniog; Mrs Betty Hughes; Mrs Evans, Bod Idris; Mrs Nansi Jones, Meillinnydd, Mrs Mary Davies, Mrs Ann Evans, Miss Mair Ffoulkes a Mrs Jennie Jones, Bryntirion.

YSGOL TAN-Y-COED: Pel-droed: Colli o 5 gôl i 1 fu hanes y tim 5-bob-ochr pan aethpwyd draw i Ddyffryn Conwy i chwarae yn erbyn Ysgol Trefriw yng nghystadleuaeth yr Urdd.

Eisteddfod Cylch: Bu oddeutu dwsin o'r plant yn mwynhau'r profiad o gystadlu yn Eisteddfod yr Urdd, Cylch Arfon, yn Ysgol Brynrefail.

Llywyddodd Eleri Llwyd Jones (Canu dan 8) a Louise Jones (Adrodd dan 8) i ddod i'r llwyfan fel unigolion; felly hefyd y Parti Cyd-adrodd. Diolch i Mrs Ann Evans a Mrs Ann Thomas am eu llafur a'u diddordeb yn eu hyfforddi.

'Stiwiant': Bu Miss Anna Hughes, o'r Waunfawr, sy'n dilyn cwrs hyfforddi-athrawon yn y Coleg Normal yn treulio mis o Ymarfer Dysgu efo ni. Hyderwn iddi gael budd o'r profiad, a diolchwn iddi am ei chyfraniad.

DYMUNWN: adferiad buan i Mrs Clarke, lsgaer, Ponrhythallt sydd wedi bod yn sâl yn ddiweddar.

CAWL A CHÂN: Ym marn y ffyddloniaid dyma'r noson orau a drefnwyd erioed gan Bwyllgor Eisteddfod y pentref. Diolch o waelod calon i bawb am eu help a'u cefnogaeth, ond diolch arbennig i Arwel Jones am ein harwain gyda'i frwdfrydedd heintus a'i ddawn ddihafal. Cafwyd elw o £52.

EISTEDDFOD Y PENTREF: Cynhelir yr eisteddfod eleni yng Nghapel Glasgoed, nos Wener, Mai 18, yn dechrau am 5.30 o'r gloch. Mae'r Rhestr Testunau ar werth yn awr, pris 15c. Y beirniaid yw - Cerdd: Mrs Ann Hopcyn, Bethel; Llên ac Adrodd: Gwilym Hughes, Llandwrog; Arlunio: W. Selwyn Jones, Caernarfon; Gwaith Llaw a Choginio: Mrs Bronwen Jones, Rhiwlas. Y llywydd fydd Mrs Gweneth Owen, Bodorgan a'r gyfeilyddes Miss Eirian Gwynfydd Evans, Abersoch.

Mae'r Testunau hyd at 12 oed yn gyfyngedig i blant dalgylch Ysgol Gynradd Tan-y-coed, Penisarwaun; a'r adran pensiynwyr i rai sydd yn byw yn y pentref yn unig. Ond cofiwch fod y Testunau dros 12 oed hyd at oed pensiynwyr yn rhydd i'r byd. Dyma ychydig o enghreifftiau. Cerdd: 12-15 oed, 'Dolur Serch' - Gwobrau £1.50; £1; 15-18 oed: Hunan-ddewisiad. Gwobr: £3; £2. Unawd 18 oed at oed Pensiynwyr: Hunan-ddewisiad, Gwobr £2.

Adrodd: 12-15 oed, 'Eifionydd' (R. Williams Parry), Gwobr £1.50; £1. Coginio: 13-18 oed: Teisen Geirios, Gwobr £3; £2. Arlunio: 12-15 oed, 'Yn y Gwaith', Gwobr £1.50. Gwaith Llaw: 15-18, Hunan-ddewisiad, Gwobr £3; £2.

Beth am gynnig ar y cystadlaethau canlynol:

1. Llinell goll - (rhaid talu 10c am bob cynnig):
"O! Meg," ebe llanc o Fryntirion,
"Mae dy wên yn fy ngryrru i'n wirion,
Tyrd yma fy merch
I rannu dy serch

(Gwobr £1)



Rhai o blant Penisarwaun a'r cylch yn ystod eu hymwelid diweddar â Theatr Gwynedd i weld recordio 'Sbri Celwydd Golau' ar gyfer S4C.

GARDD EDWARD LHUYD

Ychydig o gyfle a gaiff y rhan fwyaf ohonom i weld a gwerthfawrogi planhigion uchelderau Eryri yn enwedig y rhai arctig-alpaidd sydd, ambell un ohonynt, yn hynod o brin. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf gwnaethpwyd casgliad eang o'r planhigion hyn a'u plannu mewn gerddi creigiog, arbennig a adeiladwyd ar eu cyfer yn Oriol Eryri. Y mae'r planhigion wedi eu gosod ar y creigiau yn ôl eu dull o dyfu yn eu cynefin naturiol. Fe gymer flwyddyn neu ddwy i'r ardd dyfu i'w llawn aeddfedrwyrdd ond yn barod y mae ymdrechion y tim ifanc, a gyflogwyd o dan nawdd y Cynllun Creu Gwaith, wedi creu cryn argraff.

Cyhoeddir taflen erbyn yr haf fydd yn egluro llawer am yr ardd, ac eisoes rhoddwyd labeli ger pob planhigyn i nodi ei enw.

Cafodd yr ardd ei henw ar ôl y llysieuydd o Gymro o'r ail ganrif ar bymtheg a wnaeth gymaint o waith arloesol yn Eryri. Ar ei ôl ef y cafodd **Lloydia serotina**, Brwynddail y mynydd, ei enw.

Agorwyd yr ardd yn swyddogol nos Wener, Mawrth 9 yn Oriol Eryri gan Mr Dafydd Davies, Rhandirmwyn. Ar ôl yr agoriad, traddodwyd yr ail yn y gyfres o Ddarlithoedd Edward Lhuyd gan y Dr Hugh McAllister o Brifysgol Lerpwl ar y testun "Cadwraeth Planhigion Oes yr Iâ 'Eryri'."



O'r chwith i'r dde Christine Bryant a fu'n arwain y tim a adeiladodd yr ardd, R Llyr Gruffydd, Dr D. Bassett a Dafydd Davies yn agor gardd Edward Lhuyd.

2. Telyneg: 'Addewid', Gwobr £2.

3. Erthygl neu stori ddiddorol yn addas i'w chyhoeddi mewn papur bro fel Eco'r Wyddfa. Gwobr £2.

CEFNOGWCH EIN HYSBYSEBWYR

Yn awr dan berchenogaeth

GWYNETH ROBERTS
Siop


E. WILSON HUGHES

84 Stryd Fawr

LLANBERIS 870491

Daliwch i gefnogi fel o'r blaen!

CROESAIR EBRILL



AR DRAWS:

3. Fforest (7)
7. Mae llawer yn yr uchod (4)
8. Mae rhywbeth lled dda yn yr agwedd olaf (6)
9. "Maddau i ni ein ..." (8)
11. Talent (4)
12. Diwrnod (3,6)
17. Hun (4)
18. Hysbyseb angen yn yr Eco (2,6)
19. Disgyn (6)
20. Addfwyn (6)
21. Bwâu lliwgar (7)

I LAWR:

1. Llogellau (7)
2. Ai Dai ai Aled fu'n ei godi? (7)
3. Ein prifddinas (7)
4. "... i'r diwrnod ei ddrwg ei hun" (5)
5. Gwastadedd (7)
6. Offeryn (5)
10. Griddfan (5)
13. Gan sythu, fe dry'n aderyn (7)
14. O dro i dro (7)
15. Rhan o'r gorffennol agos (7)
16. Gwael (7)
17. Rheolaidd (5)
18. Ni ddaw byth! (5)

Un llythyren yw ch, dd, ff, ng, ll, ph, rh, th. Anfonwch eich cynigion at:

Twrog Jones, 23, Glanffynnon, Llanrug. Bydd £2 o wobri'r ateb cywir cyntaf i'w dynnu.

ATEBION CROESAIR MAWRTH

AR DRAWS:

1. Plaid, 5. Grawn, 8. Iselu, 9. Rwber, 10. Dinas, 11. Gat, 12. Ymddiddan, 16. Naw, 17. Ers, 19. Etholiad, 24. Eto, 25. Dynes, 26. Arwyr, 27. Eleni, 28. Anwir, 29. Gelyn, 30. Chwain.

I LAWR:

1. Plisgyn, 2. Abertawe, 3. Drudwy, 4. Adenydd, 5. Gorsedd, 6. Nerthu, 13. Mul, 14. I.R.A., 15. Negesua, 18. Stolion, 20. Oedran, 21. Ionawr, 22. Diserch, 23. craig.

YMDDIHEURIAD

"Byddin Rhyddid Iwerddon (talfyriad) oedd y cliw cywir ar gyfer 14 I Lawr ac mae'n amlwg i'r camgymeriad yma ar fy rhan fod yn gyfrifol am brinder y cynigion y tro hwn. Roeddwn yn barod i ystyried unrhyw ymdrech gywir gan ddisyrtu cliw 14 - ond ysywaeth, ni chafwyd un.

Bu cliwiau 18 a 24 yn faen tramgwydd amlwg. Mawr obeithiaf fod y croesair uchod yn gweithio! Pob hwyl arno. - Gol.

DIARHEBION EBRILL

1. Afiach pob trwm galon
Afiach y wybren yn Ebrill.
2. Ebrill fwyn, sych lwyn, gwlych lwyn.
3. Ebrill garw, parchell marw.
4. Ebrill glas, Mai bras.
5. Ebrill oer a lanwa'r ysgubor.
6. Ebrill sych, pob peth a nych.

Ar gyfer pob parti . . .
I ddathlu pob achlysur . . .



Gwesty'r Foelas

(Richard a Meirwen Thomas)

Llanrug

Ffôn: CAERNARFON 4652

DYDDIADUR

ailddechrau

EBRILL:

2, Llund, Deiniolen: Sefydliad y Merched - Mr W.M. Griffith yn sôn am 'Hen Bethau'.

5, Iau, Waunfawr: Sefydliad y Merched

6, Gwener, Waunfawr: Noson Goffi yn Neuadd yr Eglwys am 6.30 pryd y dewisir Brenhines y Carnifal a'i Gosgordd.

Bethel: Cyngerdd yn y Neuadd.

12, Iau, Deiniolen: Noson Goffi dan nawdd y Seindorf yn y Ganolfan

13, Gwener, Llanberis: Te yr Henoed Yr Aardal: Yr ysgolion yn cau dros Wyl y Pasg

19, Iau, Llanrug: Cyfarfod Chwiorydd Capel Pontrhythallt yn y Festri am 2.30

28, Sadwrn, Yr Aardal: Gŵyl Lafur Bangor

30, Llund, Yr Aardal: Yr ysgolion yn

DYDDIADAU I'W COFIO

Mai 12 - Ffair Wanwyn Merched y Wawr, Llanrug

Mai 18 - Eisteddfod Bentref Penisarwaun

CYNHELIR

CYFARFOD
CYFFREDINOL
ECO'R WYDDFA

nos Iau, Ebrill 5
am 7.30

yn Festri Capel
BRYNREFAIL

Croeso cynnes i bawb

J.M. JONES A'I FAB

GWAITH CERRIG BEDDAU

A THREFNWYR ANGLADDAU

DEINIOLEN

Ffôn: LLANBERIS 872518 (Dydd)

Y FELINHELI 670124 (Nos)

Awdurdod Datblygu Cymru

A ydych chi mewn busnes?

A ydych chi'n meddwl cychwyn ar eich pen eich hun?

Mae Uned Diwydiannau Bychan yr Awdurdod yma i'ch helpu i fod yn llwyddiannus.

Fe gewch gyngor gan arbenigwyr profiadol ym mhob agwedd o redeg busnes. Yr ydym wedi dysgu sut i ddewis y ffordd orau i lwyddo ac yn gwybod am yr anawsterau.

Gallwch fanteisio ar ein cysylltiadau niferus gyda mudiadau eraill sydd yn awyddus i'ch cynghori, ac mae benthyciadau ar log isel ar gael i rai mathau o weithgareddau.

Mae eich swyddfa leol ym Mangor. Cysylltwch â ni i drefnu cyfarfod gydag un o'n cynghorwyr; cewch drafod eich syniadau a'ch gofynion yn rhad ac am ddim.

Uned Diwydiannau Bychain,
Awdurdod Datblygu Cymru,
Llys Garth, Ffordd Garth,
Bangor. Ffôn: Bangor 352606

Welsh Development Agency

CHWARAEON

TWYLL CWPAN LLANRUG

Ychydig flynyddoedd cyn yr Ail Ryfel Byd cynhaliwyd cystadleuaeth pêl-droed yn Llanrug gyda Cwpan hardd yn wobwr i'r tîm buddugol. Credir mai tua 1937 neu 1938 yr oedd y gystadleuaeth hon. Roedd tua 36 o dimau wedi cystadlu, y rhan fwyaf ohonynt o ardal Dyffryn Peris. Roedd nifer o dimau o Lanrug hefyd, gan gynnwys tîm cyntaf Llanrug, a thîm a elwid yn tîm D.M. Yn ôl yr hanes, tîm oedd hwn wedi ei hel at ei gilydd gan weithwyr bysus D.M. Pritchard, ac yr oedd nifer o chwaraewyr da iawn o Gaernarfon yn aelodau ohono.

Cyrhaeddodd tîm Llanrug y gêm derfynol yn rhwydd. Eu gwrthwynebwyr yno fyddai enillwyr y gêm rhwng Tîm D.M. a thîm Clwt-y-bont. Roedd disgwyl mawr i dîm D.M. ennill eu ffordd i'r 'ffeinal' oherwydd y byddai'r elfen o gêm darbi yn ychwanegu at yr hwyl. Ond yn groes i'r disgwyliad, tîm Clwt-y-bont aeth â hi, a hwy gafodd y cyfle o chwarae tîm Llanrug yn y gêm derfynol.

Bwriedid chwarae'r gêm ar nos Wener, a mawr oedd y trin a'r trafod ar ragoriaethau a gwendidau'r ddau dîm yn y chwarel yn ystod yr wythnos. Ond yn ôl yr hanes, roedd cenfigen wedi gwrthio'i big i mewn: cenfigen ar ran rhai o aelodau tîm D.M. a gollodd yn y rownd gyn-derfynol. Roedd sôn eu bod wedi perswadio tîm Llanrug i beidio chwarae rhai o'u chwaraewyr gwannaf, ac i gynnwys rhai o chwaraewyr gorau tîm D.M. (sef chwaraewyr o Gaernarfon) yn eu tîm ar gyfer y ffeinal. Daeth y sibrydion hyn i glyw rhai o aelodau tîm Clwt-y-bont, a phenderfynwyd dalu'r pwyth yn ôl. Penderfynwyd 'benthg' tri o chwaraewyr Llanberis ar gyfer y ffeinal.

Roedd yr holl siarad am dwyllo o benthg chwaraewyr wedi creu llawer o ddiddordeb yn y gêm, a llawer iawn wedi troi allan ar y nos Wener i wyllo canlyniadau'r holl ffrwgd. Clwt-y-bont (gyda help rhai o Lanberis) a orfu yn erbyn Llanrug (gyda help Caernarfon), a hwy gariodd y Cwpan hardd yn ôl i ardal y Waen Gynfi ar ddiwedd y noson.

Dyna'r hanes fel yr adroddwyd ef

gan Mr W.S. Griffith, Deiniolen yn ddiweddar – ac yr oedd ef yn aelod o dîm buddugol Clwt-y-bont. Mae'r Cwpan a enillodd y tîm yn y gystadleuaeth honno ganddo heddiw – ond nid dyna ddiwedd y stori.

Cred Mr Griffith yw mai Cwpan wedi ei llogi i'r gystadleuaeth gan Bwyllgor Llanrug oedd y Tlws, a'u bod wedi gorfod ei phrynu oherwydd y diddordeb (36 o dimau'n cystadlu!). Oes rhywun all gadarnhau hyn? Ynteu ai i gystadleuaeth arall y bu'n rhaid llogi Cwpan? Mae Mr Griffith hefyd yn credu mai'r tri chwaraewr o Lanberis a fenthyciwyd ar gyfer y ffeinal' oedd Wil Penny, Wil Padarn Road a John Glyn. Oes rhywun yn cytuno? Beth am y rhai a fenthyciwyd gan dîm Llanrug? Oes lluniau ar gael o rai o'r timau hyn?

Os oes gennych unrhyw wybodaeth am y digwyddiad uchod neu unrhyw atgofion am un o hen dim au pêl-droed bro'r 'Eco' yna anfonwch air i'r Golygydd Erthyglau neu ffoniwch Caernarfon 3515.

CHWARAEON: Diolch i Mr W.S. Griffith am ei atgofion difyr am y Maes Pêl-droed a'r ymryson ffyrnig rhwng yr amrywiol dimau. Glywsoch chi am gôl nad oedd yn gôl? Gornest rhwng Rhiwlas a Chlwt-y-bont oedd hi. Daeth ergyd fel o wn i fewn i gôl Clwt-y-bont ond ni welodd y dyfarnwr mohoni. Roedd twll yn y rhwyd ac aeth y bêl trwyddo gan daro'r wal a bowndio'r ochr gywir i'r postyn. Cic allan a roddwyd, a dim gôl i Rhiwlas y tro hwnnw.



Mr W.S. Griffith, gyda'r Cwpan a enillodd tîm Clwt-y-bont yn Llanrug.

RAS TRAWS-GWLAD YR URDD

Pob llwyddiant i aelodau'r Urdd yn ysgolion y fro fydd yn cystadlu yn Aberystwyth ddydd Sadwrn, Ebrill 7. Mwy o'r hanes y mis nesaf.

LLWYDDIANT RHEDWYR Y FRO

Yn ystod y mis cynhaliwyd Cinio Blynnyddol Clwb Rhedwyr Eryri yng Ngwesty'r Victoria, Llanberis. Yn ystod y noson, gwobrwywyd amryw o aelodau'r Clwb am eu llwyddiant yn ystod tymor 1983-84.

Ymhlith yr enillwyr roedd amryw o redwyr o fro'r 'Eco', a llongyfarchwn hwynt ar eu llwyddiant. Enillodd Linda Prydderch o Lanberis y wobwr i enethod dan 12 oed; Adrian Owen o'r Waunfawr y wobwr am y rhedwr ieuanc mwyaf addawol, a Mathew Ward o Lanrug wobwr arbennig am ei ddyfalbarhad drwy'r tymor.

Yn ychwanegol at y llwyddiannau hyn, enillodd Paul Prydderch o Lanberis, Bencampwriaeth Traws Gwlad Gogledd Cymru i fechgyn dan 13 oed.



Adrian Owen, Waunfawr.



Mathew Ward, Llanberis.

Lluniau rhedwyr ifanc o'r fro a enillodd wobrau blynnyddol Clwb Rhedwyr Eryri am dymor 1983-84. Mae'r tymor rhedeg traws-gwlad tu cefn iddynt bellach, ac y maent yn paratoi ar gyfer rasmus ffyrdd a rasmus mynydd y gwanwyn a'r haf.

RAS CAERNARFON

Mae holl redwyr y fro wrthi'n brysur ar hyn o bryd yn paratoi ar gyfer Ras Hanner Marathon Caernarfon. Clwb Rhedwyr Eryri sy'n gofalu am y trefniadau eleni, ac y mae llawer o waith paratoi wedi ei wneud yn ystod y misoedd diwethaf.

Yn gysylltiedig â'r Hanner Marathon bydd rasmus ieuencid yn cael eu cynnal hefyd – ras o dair milltir i fechgyn a genethod o 14-16 oed; a ras o ddwy filltir i fechgyn a genethod 12 a 13 oed. Bydd y rasmus yn cael eu cynnal ar hyd y Foryd ar bnawn Sul, Ebrill 8. Pob hwyl i'r rhedwyr lleol ym mhob ras.



Paul a Linda Prydderch o Lanberis.

"HEGLU'N UN HAID" – RAS YR URDD, LLYN TEGID –

Cynhelir Ras Hwyl yr Urdd eleni ar Fehefin 30 – o Wersyll Glan-llyn o amgylch Llyn Tegid – pellter o 11 milltir. Mae croeso i aelodau'r Urdd redeg ynddi'n ddi-dâl, ond rhaid i redwyr eraill dalu am y frain! Mae ffurflenni noddi ar gael gan yr Urdd, a cheir gwahanol gategorïau o rasmus – gan gynnwys ras teulu a ras clwb neu gymdeithas.

Os am gystadlu, rhaid anfon yr enwau i mewn cyn diwedd Ebrill. Mae rhai ffurflenni ar gael gan Dafydd W. Thomas, Llanrug (Ffôn: C'fon 3515).